

# Gwyllydydd



CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD

Canwch i'r ARGLWYDD gân newydd,  
canwch i'r ARGLWYDD yr holl ddaear.  
(Salm 96:1)





gan Jon, Owain a Gruffydd

Rhwng 17 Gorffennaf ac 1 Awst eleni, aeth criw o bobl ifanc o'r Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru ar daith i Jamaica. Taith gyfnewid oedd hon a'r haf nesaf bydd pobl ifanc o Jamaica yn dod atom ni.

Y rhai aeth draw i Jamaica oedd Gruff, Bethan, Owain, James, Anna, Annie, Katie, Katherine a Charlotte, ynghyd â dau arweinydd sef y Parchedig Cathy Gale a'r Diacon Jon Miller. Er bod y llun yn dangos y bobl ifanc yn ymlacio ar y traeth, roedd y daith i Jamaica yn golygu cryn dipyn o waith caled hefyd.

Yn ystod yr wythnos gyntaf, buont yn cymryd rhan yng ngwersylloedd ieuenedid Talaith Fethodistaidd Jamaica yng ngogledd yr ynys. Roedd angen iddynt wneud pob math o dasgau – glanhau'r toiledau, golchi'r llestri, gweini prydau bwyd – a dioddef brathiaidau mosgitos yn y gwres. Ond cawsant hwyl a gwneud ffrindiau.

**Yng ngeiriau Owain:**

“Wedi i ni gael diwrnod i arfer cafodd y grŵp ei rannu'n ddau, gyda'r ddau arall



Llun a dynnodd Owain o'r amodau cysgu yn 'Senior Camp', “9 mewn ystafell fechan - roedd rhaid imi gadw 8 plentyn lleol yn ddistaw dros nos, sialens a hanner!”

o Synod Cymru yn mynd drosodd i GAMUT, tra fy mod i yn 'Senior Camp'...i blant rhwng 12 a 14... gyda'r diwrnod yn cychwyn o gwmpas 5 y bore, ac yn aml yn gorffen tua hanner nos! Mi oedd yr amodau yn galed iawn yn y ddau wersyll, gyda mwynderau syml yn aml wedi rhedeg allan neu ddim yn bresennol.”

**Ac meddai Gruffydd:**

“Roedd y diwrnod yn hir iawn, gydag ymarfer corff am 5:30 bob bore, heblaw'r Sul wrth gwrs...Roedden ni'n uchel yn y mynyddoedd yn yr wythnos hon oedd yn golygu nad oedd y gwres yn broblem fawr ond pan oedd y glaw yn dod, roedd yn hynod o drwm. Roedd taith gerdded oddeutu 20 munud o'r gweryll i'r capel ar y bore Sul, a hwnnw oedd y diwrnod poeth hefyd. Roeddwn i mewn trowsus llaes am yr unig dro ac roeddwn i'n dioddef! Yn y capel, roeddwn i'n cymryd rhan drwy ddarlllen ychydig adnodau o Lyfr Actau o fersiwn Beibl.net.”

Yna, yn yr ail wythnos, aethant i Kingston, prifddinas Jamaica, lle buont yn gweithio yng Nghartref Plant Cenedlaethol Jamaica. Roedd y plant yn llawn egni, yn anodd eu disgyblu ond yn byrlymu o lawenydd. Tipyn bach fel bugeilio cathod, a'r rheini'n gathod sydd wedi cael gormod o gaffein a siwgr ac fel petaent yn meddu ar bwerau telegludo (yn ôl Jon). “Synnu oeddem at y tloidi yn y cartref ei hun,” ychwanega Owain.

Cyn dychwelyd i Gymru, ar y noson olaf (medd Gruffydd) “aethom i'r Emancipation Vigil yn un o'r Capeli yno, a chael gweld balchder y wlad wedi'r rhyddhad oddi wrth gaethwasiaeth. Roedd hon yn noson i ni ddysgu am eu diwylliant ac i ninnau rannu ein diwylliant ninnau, a rhoesom bennill o'r emyn Calon Lân i'w diddanu yn ogystal â dawns werin Gymreig!”



Dyma sut y mae Owain yn crynhoi'r profiad o gymryd rhan yn y Daith Gyfnewid: “Mi oedd y daith i gyd yn brofiad am nifer o resymau gwahanol, ac mi wnaeth gadarnhau fy nghred”. Roedd yn gyfle, medd Jon, i'r bobl ifanc wneud pethau na fuasant erioed wedi meddwl y gallent eu gwneud. Roedd yn agoriad llygad a chafodd eu ffydd ei herio a'i hatgyfnerthu. Mae cynlluniau ar droed i groesawu cyfeillion Jamaica yn ystod Awst 2017, trwy fynd â nhw i'r Eisteddfod Genedlaethol ac i wersylla.

Mae mwy o luniau a hanes (yn Saesneg) ar y blog - <https://walesmethodistinternationalyouthexchange.wordpress.com/>



# Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU

YR EGLWYS FETHODISTAIDD

Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 203**

**HYDREF-TACHWEDD 2016**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru.  
6 rhifyn drwy'r post £4.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR  
YN YR EITEMAU UNIGOL**

**Golygyddion:**

**ROBIN JONES**

LLYS ALAW, 18 STÂD ERYRI

BETHEL, CAERNARFON

GWYNEDD LL55 1BX

Ffôn: 01248 670140

symudol: 07780869907

e-bost:

robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**

CRUD YR AWEL

LÔN NEWYDD COETMOR

BETHESDA, GWYNEDD LL57 3DT

Ffôn 01248 605365

e-bost:

ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

*Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion*

**DYDDIAD CAU:**

**4 TACHWEDD, 2016**

Dylid gwneud sicciau yn daladwy i

**“Yr Eglwys Fethodistaidd –**

**Talaith Cymru”**

Argraffwyr:

Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018



Enillydd y gystadleuaeth yn rhifyn  
Awst-Medi yw **DELYTH EVANS**,

Llanrhystud, Ceredigion.

Llongyfarchiadau, Delyth.

Mae **Tedi'r Gwyliedydd**

ar ei ffordd i Llanrhystud!

Diolch i bawb wnaeth gystadlu.

# OR GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **JENNIFER HURD**

Rwyf wastad wedi dweud y buaswn i'n gwneud unrhyw swydd ym mywyd yr eglwys ar wahân i swydd trysorydd. Rwy'n edmygu trysoryddion yn fawr iawn. Dydw i ddim yn dda efo rhifau, ac rwy'n cael trafferth i edrych ar ôl fy arian fy hunan heb sôn am arian pobl eraill! Anghofiwch am y ddoethuriaeth - rwy'n falchach o lawer imi lwyddo i basio Lefel 'O' Mathemateg! Fel mae'n digwydd, ac yn rhyfeddol iawn, mae gen i Lefel 'O' Ystadegau hefyd. Roedd yn well gen i'r pwnc hwnnw na Mathemateg. Mae ystadegau'n gallu dweud rhywbeth wrthym ni am bobl, a phobl sydd o wir ddiddordeb i mi.

Er gwaetha'r dyweddiad Saesneg sy'n sôn am "lies, \*\*\*\* lies and statistics", mae'r Eglwys Fethodistaidd yn cymryd ystadegau o ddifrif. Ar bob dydd Sul ym mis Hydref, bob blwyddyn, ym mhob cynulleidfda Fethodistaidd ym Mhrydain, cawn ein cyfrif. Yn ogystal, caiff ffigurau aelodaeth eu cyfrif. Mae'r rhifau'n cael eu hanfon at Methodist Church House yn Llundain er mwyn iddynt eu dadansoddi. Defnyddir y ffigurau hyn i asesu iechyd y Cyfundeb, i helpu gyda gwaith cynllunio ariannol ac anghenion staffio, a phob rhan o fywyd yr Eglwys sydd a wnelo â'n cenhadaeth. Gallwch weld yr ystadegau ar wefan yr Eglwys Fethodistaidd o dan y teitl "Statistics for Mission":

(<http://www.methodist.org.uk/mission/statistics-for-mission>). Nid mater o gasglu ystadegau diddorol o ran hwyl mo hyn: mae'n un modd o ystyried ein cyfraniad i deyrnas Dduw.

Os oes gennych chi fynediad i'r we, ac os nad ydych wedi edrych arnynt o'r blaen, a gaf i awgrymu eich bod yn mynd i <http://www.methodist.org.uk/mission/statistics-for-mission/district-circuit-church-reports> er mwyn cael cipolwg ar ystadegau diwethaf Synod Cymru? Mae'n debyg na fydd yr ystadegau hyn yn eich synnu, ond mae'n rhaid imi gyfaddef imi gael tipyn o sioc o weld y fath ostyngiad yn nifer ein haelodau ni. Mewn ffigurau crwn, yn y flwyddyn 2000, roedd gan Dalaith Cymru (fel roedden ni ar y pryd) tua 3000 o aelodau. Yn 2014, roedd gennym 1313. Y llynedd, roedd gennym 1195. Mae 'na batrwm amlwg, on'd oes? Mi ges i fraw wrth weld y naid yna, rhwng 2014 a 2015, yn arbennig. Fel arfer, pan fydd unrhyw fusnes neu sefydliad yn dangos ffigurau o'r fath, mae'r person 'ar y top' yn cael ei ddiswyddo. Rwy'n disgwyl gweld y llythyr yn y post unrhyw ddiwrnod...

Yn hytrach na chaniatáu i'r ystadegau hyn ein digalonni, credaf y dylem edrych arnynt fel neges gan Dduw i ymrwymo o'r newydd i'w waith ac i'n galwad fel dilynwyr i Iesu Grist. Gall gweld yr ystadegau ein harwain i ganolbwyntio o'r newydd ar ein galwad i ddysgu a gofalu, i addoli, gwasanaethu ac efengyl fel aelodau o'r Eglwys Fethodistaidd. Fel y gwyrddoch, rydym fel Synod, Cylchdaith, Ardaloedd, capeli ac unigolion wedi penderfynu canolbwyntio ar un o'r themâu hyn bob blwyddyn ers 2014. Yn y flwyddyn gyfundebol hon, cawn ein gwahodd i ddatblygu ein galwad ym maes gwasanaethu. Mae gwasanaethu ein cymdogion, fel y gwasanaethodd Duw ni i gyd trwy fywyd, gweinidogaeth, hunan-berth a chariad Iesu Grist, yn cyfleu neges yr efengyl yn glir iawn. Diflanna geiriau ond erys gweithredoedd, yn ôl yr hen air. Ac fe "ddaeth y Gair yn gnawd" (Ioan 1: 14) er mwyn i Dduw gyfleu yn glir ei gariad tuag atom ni. Pan fyddwn ninnau'n rhoi ffurf i gariad Duw, yn peri i'r cariad hwn ymgawdoli drwy ein gwasanaeth cariadlon, dyna pryd yr ymunwn ag ef yng ngwaith ei deyrnas. Nid oes dim sy'n denu pobl fel y gwna cariad, a chariad sy'n gwneud gwahaniaeth i fywyd (ac i ystadegau!) ein capeli a'n cymunedau.

Mae ystadegau yn rhan o faes ymchwil feintiol. Math arall o ymchwil yw ymchwil ansoddol. Fel Synod, byddwn eleni yn gwneud darn o ymchwil ansoddol wrth i ni fynd trwy broses o adolygu ein bywyd gyda'n gilydd. Byddwn yn ystyried ein cryfderau, ein gwendidau, ein cyfleoedd a beth sy'n ein bygwth, fel Synod, Cylchdaith, Ardaloedd a chapeli, er mwyn ceisio ewyllys Duw a chanfod beth mae arno ei eisiau gennym. Mae'r broses wedi dechrau yn barod yng Nghyfarfodydd yr Ardaloedd, ac mae croeso mawr i bawb sy'n dymuno gwneud hynny ymateb i'r ddogfen drafod – gweler tudalen 9 yn y rhifyn hwn o'r *Gwyliedydd*. Mae hefyd ar wefan y Synod ([www.synodcymru.org.uk](http://www.synodcymru.org.uk)). Yn union fel y mae'n rhaid wrth ystadegau ar gyfer ymchwil feintiol, mae'n hollbwysig clywed barn, syniadau, meddyliau, teimladau a hanesion pobl er mwyn cynnal ymchwil ansoddol. **Mae arnom ni eisiau clywed gennych chi!** Trwy wneud ein hadolygiad yn feddylgar a gweddigar, byddwn yn rhoi cyfle i Dduw siarad â ni drwy ein gilydd, ac i'n harwain ni i'r dyfodol. Mae ystadegau'n gallu ein tywylllo ond ni fydd Duw yn ein gadael nac yn cefnu arnom, byth.

# CNOI CIL

gan Gwyndaf Roberts

Gan fod Cadeirydd Synod Cymru yn mynychu'r Gynhadledd Fethodistaidd yn Llundain a'r swyddogion eraill ar yr un perwyl gofynnwyd i mi gynrychioli'r enwad yng nghynhadledd flynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru yn y Tabernacl, Caerdydd dydd Mawrth 3 Gorffennaf 2016.

Braint o'r mwyaf felly oedd cael bod ymhlith aelodau o enwad na wyddwn ond ychydig amdano a sylweddoli fod y Bedyddwyr, fel yr holl enwadau eraill, yn wynebu'r un heriau â'u cyd-Gristnogion yn y Gymru sydd ohoni heddiw. Oddeutu 70 o gynrychiolwyr a ddisgwyliid i'r gynhadledd a oedd yn ymestyn o brynhawn Mawrth tan amser cinio dydd Mercher.

Y thema a ddilynwyd oedd *Y Ffin a'r Fflam* ac roedd yn amlwg o'r rhaglen bod paratoi manwl wedi digwydd o dan arweiniad y llywydd, y Parchedig Ieuan Elfryn Jones, Caergybi a'r ysgrifennydd cyffredinol egniol, y Parchedig Judith Morris, Penrhyn-coch, Aberystwyth. Roedd yr adroddiad a gafwyd o'r gynhadledd yn rhaglen radio John Roberts, *Burw Golwg* y Sul canlynol yn tystio bod yr enwad yn fyw i sialensiau ein cyfnod ac yn mentro ar y ffurfiau newydd o weithredu ymhlith holl eglwysi'r Undeb.

Fe ellir olrhain dechreuad y Bedyddwyr fel enwad i'r Diwygiad Protestanaidd, er na sefydlwyd eglwys Fedyddiedig ym Mhrydain tan 1612 a hynny yn Lloegr. Gellir bod yn bur sier mai'r eglwys gyntaf yng Nghymru oedd

yr un a sefydlodd y Parchedig John Miles yn Llanilltud Gŵyr yn 1649. Wrth i'r Diwygiad Methodistaidd gael gafael cryfhaodd y Bedyddwyr gan sefydlu achosion yn y Gogledd. Tystia Cyfrifiad Crefyddol 1851 mai'r Bedyddwyr oedd y trydydd cryfaf o gyfrif eu capeli ymhlith Ymneilltuwyr Cymru. Heddiw cyfrifir y Bedyddwyr yn un o brif enwadau'r byd a'u dylanwad yn amlwg iawn yn Unol Daleithiau America.

Yn 2005 roedd 80 o eglwysi gan y Bedyddwyr ym Môn, Arfon, Dinbych, Fflint a Meirion gyda chyfanswm o 1587 o aelodau. Roedd 51 eglwys ym Maesyfed, Maldwyn a Brycheiniog gyda 959 o aelodau. Roedd y Bedyddwyr yn gryfaf yn y De, gyda 316 eglwys a 12,837 o aelodau. Cyfanswm felly o 447 o eglwysi Cymraeg gyda 15,383 o aelodau trwy'r wlad yn gyfan. Nid yw manylion yr eglwysi sydd ar agor ddiwedd 2015 ar gael ond cyhoeddwyd bod yr aelodaeth yn 11,345, sef colled dros ddeng mlynedd o 4,035 aelod. Ar ddechrau'r 20fed ganrif roedd aelodaeth y Bedyddwyr oddeutu 100,000. Mae'r gostyngiad yn eu niferoedd yn drawiadol o drist ond y gwir yw bod enwadau eraill wedi gweld colledion cyffelyb yn ystod yr un cyfnod. Mae enwad y Bedyddwyr yn credu mewn bedyddio, trwy drochiad mewn dŵr, y rhai sy'n gallu proffesu ffydd bersonol yn Iesu Grist fel Gwardwr ac Arglwydd eu bywyd. Er bod yr Undeb wedi'i sefydlu ers 1866 gan ddod ag elfen o gyfundrefn ganolog i'r enwad, deil y capeli unigol i lywodraethu eu hunain heb unrhyw ymyrraeth na gorfodaeth o'r canol. Mae'r Undeb ar gael serch hynny i roi arweiniad a chymorth yn ôl yr angen.

Daeth yn amlwg yn y Gynhadledd a hefyd wrth ddarllen yr adroddiad blynyddol bod y Bedyddwyr yn llawn ffydd wrth wynebu'r dyfodol gan gyd-nabod bod anawsterau i'w goresgyn hefyd. Da oedd deall bod pedwar gweinidog wedi cwblhau eu tymor prawf ac wedi eu cymeradwyo i fod yn weinidogion cydnabyddedig. Roedd dau arall wedi'u hordeinio a'u sefydlu a phum gweinidog ychwanegol wedi'u sefydlu.

Fel rhan o waith Bwrdd y Genhadaeth, fe ddatblygwyd rhaglen blwyddyn gap a fydd yn galluogi pobl ifanc o Gymru i wneud gwaith cenhadol yn y wlad hon. Dechreuodd y cynllun fis Medi eleni a'r gobaith yw y bydd dau dîm y flwyddyn yn eu lle erbyn mis Medi 2018. Bydd y Bwrdd yn ystyried hefyd y posibilrwydd o osod gweithwyr cenhadol o Korea i wasanaethu mewn eglwysi yng Nghymru.

Diddorol hefyd oedd clywed am waith Mudiad y Chwirydd yn gwneud ffrogiau i'w hanfon i wledydd tlawd Affrica gyda'r bwriad yn y pen draw o sicrhau y bydd gan bob merch o leiaf un ffrog newydd. Soniwyd hefyd am y gwaith o wneud blancedi ar gyfer plant newydd-anedig yn Affrica. Ers tro byd yr enw a roddid ar

fabanod tlawd yno oedd 'babis fish'n chips' am nad oedd gan y rhieni fodd i wneud dim ond eu gorchuddio â phapur newydd wrth eu cludo adref o'r ysbyty mamolaeth. Wrth wneud y blancedi hyn roedd yn bwysig gwybod nad oedd y lliw gwyn yn briodol i'w ddefnyddio gan ei fod yn arwydd o farwolaeth mewn sawl gwlad yn Affrica.

Llywydd newydd yr Undeb eleni yw'r Parchedig Peter Dewi Richards, Caerdydd - gŵr a fu â gofal am Eglwys Chiltern Street Llundain yn ystod ei gyfnod yn y ddinas honno. Dymunwn bob bendith iddo ef a'r enwad yn ystod cyfnod ei lywyddiaeth a thu hwnt.

Hollalluog Dduw, lluniaist ni i ti dy hun, a diorffwys yw ein heneidiau nes y gorffwysant ynot ti. Dysg ni i'n cyflwyno'n hunain i'th wasanaeth, inni gael yn awr dy dangnefedd, ac yn y byd a ddaw dy weled wyneb yn wyneb; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

(Llyfr Gwasanaeth yr Eglwys Fethodistaidd)

## RHODDION

Diolchwn yn gynnes unwaith eto am y tanysgrifiadau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyllydd*.

Dienw	£50-00
M.G.Thomas, Penmachno	£04-00
J.R. ac M.Davies, Abergwaun	£04-00
Mrs W.E.Miners, Y Felinheli a Llundain	£25-00

Cyfanswm Gorffennaf / Awst 2016  
**£83-00**

Cyfanswm am y flwyddyn  
1/9/15 hyd 31/8/16: **£1,975 88**

### Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd

#### Hydref

- 2 Glannau Meirion a Dyfi
- 9 Gweinidogaeth Bro Llangollen,  
a Llanwddyn
- 16 De Gwynedd
- 23 Gwyliau
- 30 Dyffryn Conwy

#### Tachwedd

- 6 Glannau Meirion a Dyfi
- 13 Môn ac Arfon
- 20 Glannau Maelor
- 27 Powys

Gweddiwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.

### CALAN GAELF



# Sgwrs â'r

## Dr LIONEL MADDEN



**Mae Lionel a Mary Madden wedi ymgartrefu yn Aberystwyth ers 1972 ac maent yn addoli yn Eglwys Sant Paul yno. Wrth ei waith, bu Lionel ar staff Coleg Llyfrgellwyr Cymru, yn Geidwad Llyfrau Printiedig y Llyfrgell Genedlaethol ac yna yn Llyfrgellydd Cenedlaethol o 1994 hyd ei ymddeoliad yn 1998. Mae'n gerddor ac yn hanesydd brwd, gan lywyddu Cymdeithas Hanes Synod Cymru a golygu ein cylchgrawn 'Bathafarn Bach'. Dyma glywed ychydig o'i hanes yntau...**

**G:** *Diolch am eich parodrwydd i siarad â'r Gwyllydydd, Lionel. I ddechrau, fel rydym bob amser yn gofyn yng Nghymru, o ble rydych chi'n dod?*

**L:** Rwy'n dod o Sheffield, Swydd Efrog. Cefais fy magu yn ardal Hillsborough, yn agos iawn i faes pêl-droed Sheffield Wednesday. Gan imi gael fy ngeni yn 1938 tyfais ymysg y dinistr enfawr a ddioddefwyd gan y ddinas yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

**G:** *Beth oedd y dylanwadau arnoch yn y dyddiau cynnar? Oedd eich teulu yn perthyn i'r Eglwys Fethodistaidd?*

**L:** Cwrddodd fy rhieni yn un o gapeli'r Methodistiaid Wesleidd yn Sheffield sydd wedi hen ddiplannu erbyn hyn. Roedd mynychu capel yn rhan o'm bywyd. Roedd fy nhad yn organydd. Wedi iddo ddychwelyd ar ôl chwe blynedd i ffwrdd yn y fyddin fe wasanaethodd mewn nifer o gapeli, gan orffen fel organydd a chôr-feistr yn y capel Methodistiaidd yn y stryd lle roeddem ni'n byw.

**G:** *Beth wnaethoch chi ar ôl gadael yr ysgol? Sut y daethoch chi i fod â diddordeb mewn llyfrgellyddiaeth?*

**L:** Treuliais ddwy flynedd o orfodaeth filwrol yn yr Awyrlu. Wedyn euthum i Brifysgol Rhydychen i astudio llenyddiaeth Saesneg. Fel mae'n digwydd fy ngholeg yn y brifysgol oedd Coleg Lincoln, sef y coleg lle roedd John Wesley ac O. M. Edwards wedi bod yn Gymrodorion. Yn Rhydychen defnyddiais yn gyson Lyfrgell Bodley, un o lyfrgelloedd pwysicaf y byd. Oherwydd y profiad hwnnw penderfynais ddilyn cwrs ôl-raddedig ym Mhrifysgol Llundain i'm paratoi ar gyfer gyrfa mewn llyfrgelloedd academaidd. Roedd hwn yn ddewis doeth oherwydd mwynheais y pwnc ac ar y cwrs cwrddais â'm gwraig Mary. Wedi gorffen y cwrs gweithiais ym Mhrifysgol Hull a Phrifysgol Caerlŷr cyn symud i Aberystwyth fel uwch ddarlithydd yng

Ngholeg Llyfrgellwyr Cymru.

**G:** *Yn amlwg, mae llyfrau wedi bod yn rhan bwysig iawn o'ch bywyd! Fyddech chi'n dweud bod gennyh hoff awdur?*

**L:** Pan oeddwn yn fy ardegau darllenais nofel a gyhoeddwyd yn 1831 gan awdur o'r enw Thomas Love Peacock. Teitl y nofel yw *Crotchet Castle*. Gwnaeth argraff fawr arnaf ac euthum ati i ddarllen ei chwe nofel arall. Yn nes ymlaen, Peacock oedd testun fy nhraethawd Ph.D. Mae wedi bod yn ffefryn gennyf dros y blynyddoedd. Er mai Sais pur oedd Peacock fe ymwelodd â Chymru a phriododd ferch o Feirionnydd. Dysgodd Gymraeg gyda chymorth ei wraig a William Owen Pughe. Mae un o'i nofelau, *The Misfortunes of Elphin*, yn seiliedig ar hanes Cantre'r Gwaelod a lleolir dwy arall yng Nghymru.

**G:** *A sut y daethoch i ymddiddori yn hanes Wesleath Gymraeg?*

**L:** Pan ddeuthum i Gymru roeddwn yn gwybod am hanes y Methodistiaid yn Lloegr ond sylweddolais yn fuan mai maes newydd oedd hanes Wesleath yn yr iaith Gymraeg. Nid oedd llawer o gyfle i ymestyn fy ngwybodaeth tra mod i'n gweithio ond wedi imi ymddeol euthum ati o ddifrif trwy ddarllen gwaith A.H. Williams a'n haneswyr eraill a darllen yn drylwyr trwy gyfrolau *Bathafarn, Yr Eurgrawn* ac ati.

**G:** *Fe fuoch chi hefyd yn un o bregethwyr cynorthwyl yr Eglwys Fethodistaidd, gan bregethu yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Oedd hi'n anodd dechrau pregethu yn Gymraeg?*

**L:** Yn fuan wedi imi gael fy nerbyn yn bregethwr cynorthwyl ar y Gylchdaith Saesneg anogodd y Parch. Daniel Davies fi i bregethu yn Gymraeg hefyd. Pregethais am y tro cyntaf yn Gymraeg yn hen gapel St Paul yn Aberystwyth yn 1979. Nid yw'n hawdd siarad yn gyhoeddus yn eich ail iaith ond derbyniais gymorth arbennig gan fy nghyfaill Dr Telfryn Pritchard. Byddwn yn darllen pob pregeth iddo a derbyn ei gywiriadau a'i awgrymiadau am welliannau cyn mentro i'w defnyddio yn y pulpud. Rwy'n gallu deall pam roedd ei fyfyrwr yn y brifysgol yn canmol Telfryn cymaint am ei amynedd! Mae fy nyled iddo ef yn enfawr.

**G:** *Diolch yn fawr am siarad â ni ac am eich cymwynasau a'ch cyfeillgarwch.*

*Yn ddiweddar cyhoeddwyd cyfrol deyrnged, **Blodeuglwm**, i'r Dr Lionel Madden gan Grŵp Llyfryddol Aberystwyth. Cyflwynwyd copi o'r gyfrol iddo a thusw hyfryd i Mrs Mary Madden. Diolch i Dr Huw Owen am y llun.*

# CAPEL NI YN EGLWYS IESU

## Ardal Bathafarn

### LLONGYFARCHIADAU

Dymuniadau gorau i Ceinwen Williams a Gwynfor o ardal y Rhyl ar achlysur hapus eu dyweddiad. Pob bendith a hapusrwydd i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau calonnog i Guto Dafydd, enillydd Gwobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Sir Fynwy. Mae priod Guto sef Lisa yn ferch i Siân ac Alan Humphreys, Penrhyndeudraeth ac yn wyres i'r diweddar Barchedig Cyril a Tegwen Lloyd, Dinbych.

### CROESO

Croeso i Cissie Hughes sydd wedi symud o Groesoswallt i Abbeyfield, Rhuthun, a braf yw cael ei chwmmi yn oedfaon Bathafarn ac eglwysi eraill y dref. Pob bendith a hapusrwydd i chi.

### GWELLHAD BUAN

Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Olwen Griffiths a Meta Beech, hefyd i Audrey Jones a Dilys Jones sydd ill dwy wedi cael anffawd yn ddiweddar. Cofion hefyd at Ifor Parry sy'n derbyn gofal yng Nghartref Plas Gwyn ac at Gretta Davies.

### OEDFAON UNDEBOL RHUTHUN

Diolch i gapeli Heol y Parc, Bathafarn, Pendref a Bethania am eu croeso wrth inni ddod at ein gilydd i addoli yn ystod mis Awst. Roedd yn braf iawn cael cydaddoli ac roedd y niferoedd oedd yn bresennol yn galonogol.

### CYDYMDEIMLO

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Gwenda Davies, ynghyd â Siân, Tony, Nia a Wyn a'r teulu i gyd o gollu un annwyl sef Gwynfor Davies. Rydym yn meddwl amdanoch fel teulu yn eich hiraeth.

*Gohebydd - Elizabeth Jones*

## Ebeneser, Treuddyn

### DYMUNIADAU GORAU

Anfonwn ein cofion cynnes at y rhai sydd mewn gwaeledd ac yn arbennig at Eiddwen Jones sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd a Margaret Jones sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen. Pob dymuniad da hefyd i Mr Raymond Milne sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn ôl yn y capel yn fuan iawn.

### BEDYDD

Cawsom brynhawn hapus iawn pan fedyddiwyd Dylan James Pritchard, mab Rebecca a Glen a brawd bach i Connor Jack. Mae'r ddau yn orwyrion i Rachel Jones.

### CYDYMDEIMLO

Ar 7 Gorffennaf, ar ôl gwaeledd hir, bu farw Howard Jones, priod Eiddwen a thad Wyn, Euryn a Hafwen. Hefyd yn sydyn, ar 19 Gorffennaf, bu farw Peter Orton, priod Ceridwen a thad Louise, Laverne a Daniel. Cynhaliwyd y gwasanaethau angladdol yn Ebeneser dan ofal y Parchedig Eirlys Gruffydd gyda Margaret Roberts wrth yr organ. Estynnwn ein cydymdeimlad at y ddau deulu yn eu colled.

### DYMUNIADAU GORAU

Llongyfarchwn ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd ar achlysur ei phriodas â'r Parchedig Brian Evans ar 29 Gorffennaf yng Nghapel Disgwyfya, Coedpoeth. Dymunwn yn dda iddynt.

Yn Ebeneser ar ddydd Sadwrn 6 Awst, diwrnod hyfryd o haf, priodwyd Bethan Bell a Peter Watkiss gan y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans gyda Margaret



Roberts wrth yr organ. Cludwyd y pâr priod ar dractor a threlar i'w gwledd briodasol yn Fferm Cae Rheinallt, Llanfynydd.

*Gohebydd - Maldwyn Roberts*

## Bethel, Amlwch

### FFARWELIO Â'N BUGAIL

Ar Sul olaf Gorffennaf, cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun unedig. Dyma oedd y Sul olaf i'r Diacon Stephen Roe wasanaethu hefo hi yma yn Amlwch. Ar ddiwedd oedfa fendithiol mwynhawyd byrbryd blasus yn yr ysgoldy, wedi'i drefnu gan aelodau o'r ddwy gynulleidfa. Braf oedd cael cwmni Angela, Chris ac

Emily Roe yn ogystal. Cyflwynwyd darlun dyfriliw o Bont y Borth, a ddarluniwyd gan Len Thomas, i Angela fel arwydd o werthfawrogiad aelodau'r gynulleidfa Gymraeg.

Ym Mhencarnisiog y nos Iau ganlynol, aeth nifer ohonom i wasanaeth o dan arweiniad y Parchedig Jennie Hurd, Cadeirydd Synod Cymru, pan dalwyd teyrnged gynnes i Stephen am ei waith da yn ein plith ym Môn ac Arfon. Daeth cynulleidfa gref ynghyd a mwynhawyd gwledd ar ddiwedd y gwasanaeth. Diolch yn fawr i gyfeillion Pencarnisiog a Threfor am baratoi ar ein cyfer.

### DIWRNOD I'W GOFIO

Pan ddatlodd Len Thomas ben-blwydd arbennig ddiwedd mis Mehefin, ni wyddai ddim am y te parti a drefnwyd ar ei gyfer yn y capel. Roedd 37 yn bresennol, cynrychiolaeth o'r cynulleidfa oedd Cymraeg a Saesneg. Mwynhawyd gwledd wedi ei threfnu gan Menai Thomas a Heather Parry ynghyd â lluo o gynorthwywyr. Diolch yn fawr am yr holl gardiau a'r anrhegion. Bu pawb yn hael iawn ac roedd yn ddiwrnod i'w gofio yn wir.

*Gohebydd - Len Thomas*

## Preswylfa, Cyffordd Llandudno

### GWELLHAD BUAN

Rydym fel Eglwys yn dymuno'n dda i'n blaenoriaid Islwyn Evans, sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd ac Eirian Jones, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Gobeithio eu gweld yn ôl yn y sêd fawr yn fuan iawn.

*Gohebydd - Llinos Garstang*

## Tabernacl, Llanfyllin

### DRWS AGORED

Gorffennodd Cyfeillion Drws Agored eu tymor gydag ymweliad â Chanolfan Hanes newydd y Wyrcews yn y Dolydd. Cafwyd cyfle i weld ffilm 'Ysbrydion y Wyrcews' a mwynhau sgwrs ddiddorol gan John Hainsworth, a ysgrifennodd y sgript, gyda hynny'n arwain at drafodaeth a rhannu atgofion am gymeriadau a fu'n gysylltiedig â'r Dolydd. Yna tywyswyd y grŵp o gwmpas yr adeilad i weld y gwaith adfer ac adnewyddu a wnaed yno. Diolchodd Rhoswen Charles, y Llywydd, i John am bnawn pleserus iawn. Wedi hynny mwynhawyd te hyfryd yn y Station Grill, Llansanffraid. Edrychwn ymlaen yn awr at dymor nesaf Drws Agored.

### GWELLHAD BUAN

Anfonwn ein cofion at Mrs Eurwen Jenkins sydd nawr yn Ysbyty'r Trallwm, a hefyd at Mrs Llywela Roberts sydd yn disgwyl rhagor o driniaeth.

*parhad ar y dudalen nesaf*

## LLONGYFARCHIADAU

Dymuniadau gorau i deulu Penllwyn ar enedigaeth mab bach i Gerallt ac Emma, sef Huw Emlyn, ac wrth gwrs i Taid a Nain, Huw ac Alwena Francis, sydd bellach yn eu cartref newydd, Dyffryn. Llongyfarchiadau i Roy ac Anwen Griffiths, Dyfnant, hwythau yn daid a nain wedi i Mererid a Geraint, Llangadfan, gael merch fach sef Gwenllian Llewelyn.

## DYMUNO'N DDA

Llongyfarchiadau i'r holl bobl ifanc ar eu llwyddiant yn eu harholiadau a phob dymuniad da i chi i gyd yn eich gwahanol feysydd.

*Gohebyddion – Robin Hughes  
a Mair Ellis*

## Pont Robert

### GWELLHAD

Rydym yn falch o ddeall fod Sharon Parry, Rhosymenyn, yn parhau i wella ar ôl cael llawdriniaeth yn Ysbyty'r Amwythig. Hefyd Richard Wright o Lanfyllin a Bryn Jones, Pont Robert. Dymuniadau gorau am wellhad llwyr iddynt i gyd.

### CARTREF NEWYDD

Dymuniadau gorau i Bronwen a Huw Gwalchmai yn eu cartref newydd yng Nghedidfa. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn eu hardal newydd.

### DYMUNIADAU GORAU

Rydym yn dymuno'n dda i'r bobl ifanc sydd â chysylltiad â'r capel ac a fydd yn mynd i Gaerdydd yn fuan. Bydd Rhodri Prys Jones yn parhau â'i gwrs ym mynd yr opera, Gerwyn ei frawd yn parhau yn y coleg ac Elen Jones yn cychwyn ar ei chwrs yn y coleg.

## LLONGYFARCHIADAU

Pob dymuniad da i Siân Vaughan Jones, Brynderwen, yn ei swydd newydd fel Swyddog Datblygu Dwyieithog Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Drefaldwyn. Llongyfarchwn ei merch Anni sydd wedi pasio arholiadau cerdd Gradd 1 gyda Rhagoriaeth a Gradd 2 gyda Theilyngdod (cornet) a Gradd 2 gyda Theilyngdod (clarinét). Mae Mari Jones hithau wedi llwyddo gyda Theilyngdod mewn arholiad canu Gradd 5 ac fe gafodd lwyddiant arbennig yn ei harholiadau TGAU. Rydym yn falch iawn o'ch llwyddiant.

*Gohebydd – Margaret Blainey*

## Ebeneser, Trefor, Môn

### FFARWELIO

Nos Sul Gorffennaf 17 oedd y tro olaf i'r Diacon Stephen Roe fod gyda ni cyn iddo symud o'r ardal. Fel arwydd o'n gwerthfawrogiad o'i wasanaeth cyflwynwyd llun o'r capel iddo. Tynnwyd y llun gan Mr Gareth Thomas ac fe'i

## Ebeneser, Môn



cyflwynwyd ar ein rhan gan Mr Robyn Parry. Bydd colled fawr i ni ar ôl Stephen – roedd bob amser yn barod ei gymwynas ac yn ddibynadwy iawn. Rydym yn hynod falch ei fod yn parhau i weithio yng Nghymru ar ôl meistrolï'r Gymraeg mor ardderchog. Dymunwn yn dda iddo ef a'r teulu yn Nolgellau. Ddiwedd y mis cafwyd cyfle arall i ddiolch a ffarwelio ag ef yn swyddogol mewn cyfarfod arbennig yng nghapel Maelog, Pencarnisiog.

### GWELLHAD BUAN I'N HORGANYDD

Ni fu Mrs Gwyneth Thomas ein horganydd yn dda yn ddiweddar ac ni allodd ddod i'r capel am rai wythnosau. Roedd yn chwithdod gorfod adrodd geiriau'r emynau yn hytrach na'u canu. Mae'n dda iawn deall fod Gwyneth yn gwella a byddwn yn ei gwerthfawrogi fwy nag erioed pan ddaw yn ei hôl!

*Gohebydd – Carys Thomas*

## Ardal Môn ac Arfon



*Gwyn Jones, Goruchwyliwr Ardal Môn ac Arfon, yn dymuno'n dda i'r Diacon Stephen Roe ar ran yr Ardal*

## Horeb, Croesoswallt

### CYMANFA GANU UNDEBOL MYLLIN A THANAT

Tro Horeb oedd cynnal y Gymanfa eleni ar nos Sul Mai 15fed gyda Mrs Gaenor Roberts o Lanymawddwy yn arwain a Mr Richard Jones, Pontfadog, yn cyfeilio ar yr organ. Daeth cynulleidfa deilwng ynghyd, a'r canu wrth fodd yr arweinydd. Y Parchedig Gwyndaf Richards oedd yn llywio'r gweithgareddau a Mr Melfyn Evans a gyflwynodd y defosiwn. Mrs Lynda Thomas a ofalodd am y trefniadau a'i brawd Mr Peter Williams oedd y trysorydd.

### CYMORTH CRISTNOGOL

Cyfanswm y casgliad eleni oedd £277.00. Rydym yn diolch o waelod calon i Nesta

am ddod yr holl ffordd o Gricieth i wneud y casgliad. Diolch hefyd i Dafydd am ei help yntau.

### MARWOLAETH

Bu farw Mrs Mair Mason yn ysbyty Amwythig wedi iddi gwmpo yn ei chartref a thorri ei choes. Wedi ei magu yn Llanrhaeadr ym Mochnant a threulio blynyddoedd yn Llundain, daeth hi a'i gŵr yn ôl i ymddeol i Groesoswallt ac ymaelodi yn Horeb. Bu Mrs Mason yn un o'rganyddion Horeb ac yn ffyddlon iawn i'r achos.

### DYMUNIADAU GORAU

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da at ein haelodau sydd yn methu dod i'r oedfaon oherwydd cystudd a salwch. Meddyliwn am Mrs Margaret Jones sydd

*parhad ar y dudalen 10*

wedi bod yn wael ers rhai misoedd, a hefyd am y Parchedig Gwilym O. Jones sydd mor ofalus ohoni.

Mae Mrs Myfyd Davies wedi cael triniaeth ar ei llygaid a gobeithiwn fod y driniaeth wedi bod yn llwyddiannus. Da hefyd yw gwybod fod Mrs Mary Davies yn ôl yn ei chartref ac yn cael y gofal gorau gan ei theulu.

### OEDFAON

Cawsom y fraint o gael gwasanaeth y cyfeillion canlynol yn ein pulpudau yn ystod y misoedd diwethaf: Y Parchedigion Robert Jones, Gwilym O. Jones, Jennie Hurd, Rhys ap Ogwen Jones, Dilys Jones ac Edwin Hughes; Mr Eifion Thomas, Mr Eurwyn Pierce Jones, Mrs Elizabeth Jones, Mr Glyn Williams, Mr Tom Ellis, Mr Richard Jones a Mr Thomas Morris.

*Gohebydd – Eurwyn Jones*

## Pendref, Dinbych

### ADDOLI

Parhawn i addoli gydag aelodau Peniel yn Ffestri Pendref ac yn Llanelwy a chawsom ein harwain mewn addoliad gan y Parchedigion Tudur Rowlands a Glyn Thomas a hefyd Royce Warner ac Elizabeth Jones. Yn ystod mis Awst cynhaliwyd gwasanaeth undebol ym Mhendref dan arweiniad Mr Tom Williams, Dinbych.

### CARTREF NEWYDD

Mae Mrs Rhiannon Rogers bellach wedi ymgartrefu yn Llanrhaeadr Hall a dymunwn bob hapusrwydd iddi yn ei chartref newydd.

### DYMUNIADAU GORAU

Dymunwn yn dda i'r Parchedig Cledwyn Parry a fu am gyfnod byr yn yr ysbyty.

### PRIODAS

Dymunwn yn dda i Lowri a Jorge Fernandes yn dilyn eu priodas yn yr Eglwyswen, Dinbych, ar Orffennaf 29ain. Mae Lowri yn ferch i Elfed a Janet Evans, Garej y Ffowndri, Dinbych, ac yn aelod yma ym Mhendref.

*Gohebwyd – Mary Jones  
a Rhiannon Rogers*

## Eglwys Unedig Colwyn

### UNDEBOL

Drwy gydol mis Awst buom yn ymuno â'n cyfeillion o wahanol eglwysi'r fro i addoli a chawsom wasanaethau bendithiol yng nghwmni'n gilydd.

### BRYSIWCH WELLA

Cofion caredig at Arfon Williams, nad yw wedi gallu dod i'r oedfaon yn ddiweddar oherwydd afiechyd. Rydym yn gweld ei eisiau yn fawr ac yn methu ei arweiniad. Dymuniadau gorau iddo am wellhad wrth iddo wynebu llawdriniaeth yn awr. Pob bendith hefyd i'r aelodau eraill sy'n



*Priodas Lowri a Jorge*

wael yn eu cartrefi neu gartrefi preswyl.

### DATHLU

Llongyfarchiadau i Catherine a Martyn Blythin a fu'n dathlu Priodas Ruddem ar Awst 21.

*Gohebydd – Rhiannon Jones*

## Ebeneser, Eglwysbach

### PRIODAS

Yn Ebeneser ar 2 Gorffennaf, priodwyd Eurgain, merch Ieuan ac Elen Hughes,



Bryn Hafod, Eglwysbach ac Edward, mab Hugh a Siân Nutting, Cwm Rhwyddfor, Tal-y-llyn, Meirionnydd. Gweinyddwyd y briodas gan y Parchedig Philip Barnett a'r organydd oedd Mrs Diana Hughes. Cafwyd darlleniad gan Sarah Williams a datganiad gan blant Tu Hwnt i'r Fawnog. Mwynhawyd y wledd briodasol yng Nghanolfan Fwyd Bodnant.

*Gohebydd – Charles Crapper*

## Saron, Bethel, Arfon

### NEWYDDION DA

Mae Huw, Cadi a Charles wedi cael chwaer fach, a'i henw hi ydi Tiegan Rose. Bellach bydd eu mam, Gwenan, yn dod â'i phedwar plentyn efo hi – nid tri fel cynt! – ar y bws o Gaernarfon i'r oedfa bob pwn Sul yn ffyddlon. Llôn

gyfarchiadau i Gwenan a Steve felly a chlamp o groeso i Tiegan fach i'n plith. Tra mae nifer yr aelodau yn lleihau mae nifer y plant yn cynyddu, a phwy a wŷr na chawn ni eto ailgychwyn yr Ysgol Sul yma yn Saron.

### DYMUNIADAU GORAU

Mae rhai o'n haelodau wedi bod yn dioddef yn ystod misoedd yr haf; dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan iddynt.

*Gohebydd - Robin Jones*

## Ebeneser, Caernarfon

### GWELLHAD BUAN

Mae nifer o'r chwiorydd wedi bod yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i Mair Jones, Nora O'Brien a Carol Davis. Bu Nel Williams, Tŷ Capel, yn Ysbyty Gobowen, ei thrydydd ymweliad â'r Ysbyty, a hyderwn y bydd y driniaeth yn llwyddiannus. Ein cofion cynhesaf atoch.

### CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Andrea Roberts ym marwolaeth ei phriod Winston Roberts ar ôl gwaeledd hir a chreulon. Yn hollol annisgwyl bu'n rhaid i Andrea wynebu llawdriniaeth ar frys, ar adeg o ofid a hiraeth. Gwerth-fawrogn fel eglwys haelioni Andrea at yr achos yn Ebeneser.

### LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau calonnog i'r bobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r eglwys hon ac a dderbyniodd ganlyniadau arholiadau Safon Uwch yn ddiweddar. Dymunwn yn dda i Deio, wŷr Eira Owain, Elin sef wyres Ellen Jones a Rhys, wŷr Gwenllian Roberts. Da oedd clywed am lwyddiant Tomos, wŷr Gwenno a John Howard Hughes, yn yr arholiadau TGAU hefyd. Ym Mhrifysgol John Moores, Lerpwl, fe enillodd Elena Haf Campbell, wyres Myfi Powell Jones, radd mewn Hanes; ei bwriad yn awr yw dilyn cwrs pellach ym Mhrifysgol Aberystwyth.

*Gohebydd – Branwen L. Edwards*



## St Paul, Aberystwyth

### FFARWEL A CHROESO

Ar brynhawn dydd Sul 10 Gorffennaf cynhaliwyd gwasanaeth dwyieithog i ddiolch i'r Parchedig James Patron Bell am ei wasanaeth i Ardal Ceredigion a Chylchdaith Saesneg Ceredigion ers 2011 ac i ffarwelio â'r teulu i gyd. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Ddr Jennie Hurd, y Parchedig Roger Hides a'r Diacon Sara Windsor-Hides ac yn ystod y gwasanaeth cyflwynwyd sic i James gan Mrs Delyth Evans ar ran Ardal Ceredigion a Mrs Liz Edwards ar ran y Gylchdaith Saesneg. Bu James a Joanna a'u merched Rebekah ac Esther yn byw yn y Mans yn Llanbedr Pont Steffan ond erbyn hyn maent wedi symud i Winsford yn Sir Gaer lle bydd James yn dechrau ar gyfnod newydd fel gweinidog. Bydd darllenwyr y *Gwylidiedd* yn cofio'r llun hyfryd o'r teulu yn y rhifyn diwethaf. Gofynnwn fendith Duw arnynt i gyd yn eu cartref newydd.

Ein gweinidog newydd yw'r Parchedig Marty Presdee sy'n aelod o Synod Cymru a Wales Synod. Mae Marty yn gyfrifol am gapeli Ardal Ceredigion ac yn byw yn y Mans yn Llanbedr Pont Steffan. Cynhaliwyd gwasanaeth dwyieithog o groeso iddi hi a'i gŵr John ar nos Fercher 31 Awst. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Ddr Jennie Hurd, y Parchedig Ddr Stephen Wigley, y Parchedig Roger Hides a'r Diacon Sara Windsor-Hides. Darllenwyd o'r Hen Destament gan Miss Menna Evans ac o'r Testament Newydd gan Mrs Delyth Wyn Davies. Estynnwyd croeso i Marty a John gan gynrychiolwyr o'r eglwysi lleol, Cartref Methodistaidd Hafan y Waun ac Ardal Ceredigion. Edrychwn ymlaen at ddod i'nabod Marty a John, gan obeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

### LLONGYFARCHIADAU

Estynnwn ein llongyfarchiadau cynhesaf a'n dymuniadau gorau fel cynulleidfa i Trefor ac Emily Lloyd Jones a ddathlodd eu priodas ddeimwnt ar 8 Medi ac i Jim a Diane Jones a ddathlodd eu priodas aur ar 30 Gorffennaf. Anfonwn ein llongyfarchiadau hefyd i Gwenno Foster Evans, wyres ein haelod Ray Foster Evans, ar dderbyn gradd mewn ffiseg trwy gyfrwng y Gymraeg o Brifysgol Aberystwyth.

*Gohebydd – Lionel Madden*

## Shiloh, Tregarth

### LLONGYFARCH EIN POBL IFANC

Bu rhai o bobl ifanc y capel yn eistedd eu harholiadau Lefel A yn ystod y misoedd diwethaf a dymunwn yn dda iddynt yn eu hastudiaethau pellach. Yn eu mysg mae Gwenno Kervegant a Joshua Williams. Bydd Gwenno yn astudio Hanes ym Mhrifysgol Abertawe a Joshua

yn dilyn cwrs Addysg Gynradd ym Mhrifysgol Bangor.

### TAITH PHILIP A CATHERINE

Erbyn hyn mae ein gweinidog a'i wraig, Philip a Catherine Barnett, wedi cyrraedd adref yn ddiogel o'u taith o gwmpas arfordir Prydain. Codi arian at ymchwil i glefyd MS oedd diben y daith a diolchwn iddynt am eu hantur a'u haberth. Pob llwyddiant i'r ymdrechion i drechu'r clefyd.

*Gohebydd – Gwenda Davies*

## Ebeneser, Dolgellau

### Y GYNHADLEDD

#### FETHODISTAIDD, 2016

Roedd y Chwaer Eluned Williams yn un o'r cynrychiolwyr yn y Gynhadledd yn Llundain eleni. Wrth arwain oedfa ar ôl dychwelyd, fe roddodd inni flas ar rai o weithgareddau'r Gynhadledd a phrysurddeb yr wythnos.

### GWELLHAD

Mi fu Mr Hugh Humphreys yn yr ysbyty am ychydig ddyddiau ond mae gartref erbyn hyn. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo.

### YMADAWIAD

Dymunwn yn dda i Mrs Janet Handley sydd wedi symud o Ddolgellau i fyw yn nes at ei theulu. Mi fu'n mynychu'r gwasanaethau yn Ebeneser am yn agos i ddeuddeng mlynedd ar hugain. Bydd chwithdod ar ei h l.

### GENEDIGAETH

Ar Orffennaf 1af yng Nghaerdydd ganwyd Lucie Belle Louise, merch fach i Dafydd a Sarah Meredith, chwaer i Cai a Macs ac wyres i Wyn a Gwyneth Meredith.

*Gohebydd – Gwyneth Meredith*

## Horeb, Llanrwst

### DIWEDD OES EIN HADEILAD

Newyddion digon trist sydd gennym yn y rhifyn hwn. Oherwydd costau cynnal a chadw cynyddol a phydredd sych yn treiddio drwy'r adeilad, byddwn yn cynnal ein hoedfa olaf yng Nghapel Horeb fore Sul, 18fed o Fedi dan ofal ein gweinidog y Parchedig Philip Barnett. Rydym wedi bod yn cynnal ein hoedfaon yn y festri ers blwyddyn ond yn anorfod erbyn hyn rhaid gadael yr adeilad o ran iechyd a diogelwch.

Newyddion da yw nad yw'r achos yn dod i ben ond ein bod fel cynulleidfa yn symud ar draws y ffordd i rannu adeilad gyda'r Bedyddwyr ym Mhenuel. Capel bychan diddos yw Penuel, mewn cyflwr da, ac edrychwn ymlaen at addoli yno (fel Horeb ym Mhenuel).

### TAITH Y MORRIS MINOR

Hoffem longyfarch ein gweinidog y Parchedig Philip Barnett a Catherine ei wraig am gwblhau taith o gwmpas

arfordir Prydain mewn Morris Minor sydd mewn gwith o oedran. Treuliwyd tair wythnos ar y daith o dros dair mil o filltiroedd. Codi arian y maent at waith ymchwil i glefyd MS. Mae'r ddau wedi gweithio yn ddiflino dros y blynyddoedd i godi arian tuag at yr achos teilwng hwn.

### GWELLHAD BUAN

Anfonwn ein cofion at Maldwyn, gŵr Catherine, sydd yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn adferiad iechyd buan iddo.

Ein cofion hefyd at yr holl aelodau sydd yn fregus eu hiechyd. Rydym yn meddwl amdanoch.

*Gohebydd – Eira Jones*

## Shiloh, Tregarth

### LLONGYFARCH EIN POBL IFANC

Bu rhai o bobl ifanc y capel yn eistedd eu harholiadau Lefel A yn ystod y misoedd diwethaf a dymunwn yn dda iddynt yn eu hastudiaethau pellach. Yn eu mysg mae Gwenno Kervegant a Joshua Williams. Bydd Gwenno yn astudio Hanes ym Mhrifysgol Abertawe a Joshua yn dilyn cwrs Addysg Gynradd ym Mhrifysgol Bangor.

### TAITH PHILIP A CATHERINE

Erbyn hyn mae ein gweinidog a'i wraig, Philip a Catherine Barnett, wedi cyrraedd adref yn ddiogel o'u taith o gwmpas arfordir Prydain. Codi arian at ymchwil i glefyd MS oedd diben y daith a diolchwn iddynt am eu hantur a'u haberth. Pob llwyddiant i'r ymdrechion i drechu'r clefyd.

*Gohebydd – Gwenda Davies*

## LLONGYFARCHIADAU

Dymuniadau gorau i deulu Penllwyn ar enedigaeth mab bach i Gerallt ac Emma, sef Huw Emlyn, ac wrth gwrs i Taid a Nain, Huw ac Alwena Francis, sydd bellach yn eu cartref newydd, Dyffryn. Llongyfarchiadau i Roy ac Anwen Griffiths, Dyfnant, hwythau yn daid a nain wedi i Mererid a Geraint, Llangadfan, gael merch fach sef Gwenllian Llewelyn.

## DYMUNO'N DDA

Llongyfarchiadau i'r holl bobl ifanc ar eu llwyddiant yn eu harholiadau a phob dymuniad da i chi i gyd yn eich gwahanol feysydd.

*Gohebyddion – Robin Hughes  
a Mair Ellis*

## Pont Robert

### GWELLHAD

Rydym yn falch o ddeall fod Sharon Parry, Rhosymeny, yn parhau i wella ar ôl cael llawdriniaeth yn Ysbyty'r Amwythig. Hefyd Richard Wright o Lanfyllin a Bryn Jones, Pont Robert. Dymuniadau gorau am wellhad llwyr iddynt i gyd.

### CARTREF NEWYDD

Dymuniadau gorau i Bronwen a Huw Gwalchmai yn eu cartref newydd yng Nghedidfa. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn eu hardal newydd.

### DYMUNIADAU GORAU

Rydym yn dymuno'n dda i'r bobl ifanc sydd â chysylltiad â'r capel ac a fydd yn mynd i Gaerdydd yn fuan. Bydd Rhodri Prys Jones yn parhau â'i gwrs ym mynd yr opera, Gerwyn ei frawd yn parhau yn y coleg ac Elen Jones yn cychwyn ar ei chwrs yn y coleg.

## LLONGYFARCHIADAU

Pob dymuniad da i Siân Vaughan Jones, Brynderwen, yn ei swydd newydd fel Swyddog Datblygu Dwyieithog Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Drefaldwyn. Llongyfarchwn ei merch Anni sydd wedi pasio arholiadau cerdd Gradd 1 gyda Rhagoriaeth a Gradd 2 gyda Theilyngdod (cornet) a Gradd 2 gyda Theilyngdod (clarinet). Mae Mari Jones hithau wedi llwyddo gyda Theilyngdod mewn arholiad canu Gradd 5 ac fe gafodd lwyddiant arbennig yn ei harholiadau TGAU. Rydym yn falch iawn o'ch llwyddiant.

*Gohebydd – Margaret Blainey*

## Ebeneser, Trefor, Môn

### FFARWELIO

Nos Sul Gorffennaf 17 oedd y tro olaf i'r Diacon Stephen Roe fod gyda ni cyn iddo symud o'r ardal. Fel arwydd o'n gwerthfawrogiad o'i wasanaeth cyflwynwyd llun o'r capel iddo. Tynnwyd y llun gan Mr Gareth Thomas ac fe'i

### Ebeneser, Trefor



cyflwynwyd ar ein rhan gan Mr Robyn Parry. Bydd colled fawr i ni ar ôl Stephen – roedd bob amser yn barod ei gymwynas ac yn ddibynadwy iawn. Rydym yn hynod falch ei fod yn parhau i weithio yng Nghymru ar ôl meistrolï'r Gymraeg mor ardderchog. Dymunwn yn dda iddo ef a'r teulu yn Nolgellau. Ddiwedd y mis cafwyd cyfle arall i ddiolch a ffarwelio ag ef yn swyddogol mewn cyfarfod arbennig yng nghapel Maelog, Pencarnisiog.

### GWELLHAD BUAN I'N HORGANYDD

Ni fu Mrs Gwyneth Thomas ein horganydd yn dda yn ddiweddar ac ni allodd ddod i'r capel am rai wythnosau. Roedd yn chwithdod gorfod adrodd geiriau'r emynau yn hytrach na'u canu. Mae'n dda iawn deall fod Gwyneth yn gwella a byddwn yn ei gwerthfawrogi fwy nag erioed pan ddaw yn ei hôl!

*Gohebydd – Carys Thomas*

## Ardal Môn ac Arfon



*Gwyn Jones, Goruchwyliwr Ardal Môn ac Arfon, yn dymuno'n dda i'r Diacon Stephen Roe ar ran yr Ardal*

## Horeb, Croesoswallt

### CYMANFA GANU UNDEBOL MYLLIN A THANAT

Tro Horeb oedd cynnal y Gymanfa eleni ar nos Sul Mai 15fed gyda Mrs Gaenor Roberts o Lanymawddwy yn arwain a Mr Richard Jones, Pontfadog, yn cyfeilio ar yr organ. Daeth cynulleidfa deilwng ynghyd, a'r canu wrth fodd yr arweinydd. Y Parchedig Gwyndaf Richards oedd yn llywio'r gweithgareddau a Mr Melfyn Evans a gyflwynodd y defosiwn. Mrs Lynda Thomas a ofalodd am y trefniadau a'i brawd Mr Peter Williams oedd y trysorydd.

### CYMORTH CRISTNOGOL

Cyfanswm y casgliad eleni oedd £277.00. Rydym yn diolch o waelod calon i Nesta

am ddod yr holl ffordd o Gricieth i wneud y casgliad. Diolch hefyd i Dafydd am ei help yntau.

### MARWOLAETH

Bu farw Mrs Mair Mason yn ysbyty Amwythig wedi iddi gwmpo yn ei chartref a thorri ei choes. Wedi ei magu yn Llanrhaeadr ym Mochnant a threulio blynyddoedd yn Llundain, daeth hi a'i gŵr yn ôl i ymddeol i Groesoswallt ac ymaelodi yn Horeb. Bu Mrs Mason yn un o organyddion Horeb ac yn ffyddlon iawn i'r achos.

### DYMUNIADAU GORAU

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da at ein haelodau sydd yn methu dod i'r oedfaon oherwydd cystudd a salwch. Meddyliwn am Mrs Margaret Jones sydd

*parhad ar y dudalen 10*

# DATBLYGU EIN GALWAD



## Thema 2016-2017

'Gwasanaeth' yw'r thema a ddewiswyd ar gyfer rhaglen Datblygu Ein Galwad Synod Cymru yn 2016/2017. Fel y cofiwch, y themâu a ddilynwyd eisoes yw 'Dysgu a Gofalu' ac 'Addoli' ac mae eglwys ac ardaloedd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau a chyfleoedd dysgu yn seiliedig ar y ddwy thema hynny. Trwy thema 'Gwasanaeth' bydd cyfle i roi ffocws ym mywyd yr eglwys a'r ardaloedd ar fod yn gymydog da i bobl mewn angen a herio anghyfiawnder. Yn ystod y flwyddyn gyfundebol hon, bydd eglwys ac ardaloedd Synod Cymru'n cael eu hannog i fynd ati i wasanaethu eraill mewn ffyrdd newydd, gan ychwanegu at y pethau y maent yn eu gwneud yn barod. Mae'r posibilïadau yn ddi-ben-draw. Mae cymaint o ffyrdd y gallwn gynnig gwasanaeth i'n gilydd, i'n cymunedau ac i'r byd yn ehangach. Bydd yr hyn a wnawn yn amrywio yn unol ag anghenion lleol ac yn ôl yr hyn y mae eglwys ac ardaloedd yn medru ei gynnig mewn gwasanaeth.

## DMLN 'at eich gwasanaeth'

Mae'r Swyddog Dysgu a Datblygu, Delyth Wyn Davies, ar gael i helpu eglwys ac ardaloedd i archwilio'r thema a ffyrdd o'i rhoi ar waith. Gall Delyth eich cynorthwyo i ganfod beth yw anghenion eich cymuned a ffyrdd o ymateb iddynt neu arwain gweithgareddau yn ymwneud â mynd i'r afael ag anghyfiawnder. Yn ogystal, bydd tîm DMLN Cymru yn

cynhyrchu llyfryn newydd o fyfyrddau a deunydd trafod i grwpiau bychain yn y gyfres Byw Ben i Waered ar gyfer y Grawys 2017 yn seiliedig ar ein defnydd o adnoddau bywyd. Y gobai yw y bydd yr astudiaethau a'r trafodaethau yn arwain at weithredu ymarferol yn lleol ac yn ehangach.

## Syniadau

Yn sicr mae llawer iawn o bosibiliadau ar gyfer rhoi thema 'Gwasanaeth' ar waith. Fel eglwys ac fel ardal, beth am ystyried rhai o'r syniadau a'r awgrymiadau hyn?

- ♥ Trefnu gweithgareddau lletygarwch ac estyn allan at bobl anghenus o fewn y gymuned leol
- ♥ Helpu gydag ymweliad y bobl ifanc o Jamaica â Chymru yn haf 2017
- ♥ Gwirfoddoli i fod yn rhan o dîm pabell yr eglwys yn yr Eisteddfod ym Môn
- ♥ Ceisio ffyrdd o gefnogi caplaniaeth wledig, neu mewn ysbytai neu gartrefi gofal
- ♥ Defnyddio tir yr eglwys i greu gardd i'r gymuned ei mwynhau neu i dyfu llysiau i'r gymuned leol
- ♥ Cefnogi elusennau Methodistaidd megis All we can, Gweithredu dros blant a chartrefi gofal MHA
- ♥ Cefnogi banciau bywyd ac elusennau lleol
- ♥ Ymuno â thîm Agor y Llyfr neu wirfoddoli i helpu mewn ysgol leol

- ♥ Cynnig cyfleoedd i aelodau a phobl yn y gymuned i ofyn am weddi
- ♥ Cefnogi gweithgareddau eglwys Wales Synod ac enwadau eraill yn eich ardal leol.

Tybed beth fydd eich cynlluniau chi? Sut y gallwch wella eich cysylltiad â'r gymuned yn ystod y flwyddyn gyfundebol hon? Yn ystod y flwyddyn bydd cyfleoedd i rannu rhagor o syniadau gyda'n gilydd mewn amrywiol gyfarfodydd o fewn y Gylchdaith a'r Synod. Cofiwch fod gwefan Synod Cymru ar gael er mwyn rhannu hanesion a lluniau o'r hyn fydd yn digwydd. A bydd y *Gwyllydydd* yn falch dros ben o gyhoeddi'r newyddion am yr hyn y bydd pawb yn ei wneud i ddatblygu ein galwad trwy roi thema Gwasanaeth ar waith.

Am ragor o wybodaeth am y thema a'r syniadau uchod cysylltwch â Delyth Wyn Davies ar **07799 902576** neu: [daviesd@methodistchurch.org.uk](mailto:daviesd@methodistchurch.org.uk)

## Diolchwn i ti

Rhodddwr popeth,  
diolchwn i ti am dy drugaredd,  
am dy nerth,  
am dy holl fendithion yn ein bywydau.  
Diolchwn am ein galw i fyw mewn cymuned,  
ac am yr holl gyfleoedd a gawn i ffurfio perthynas ag eraill.  
Diolchwn am anfon dy Fab atom ac am roi dy Ysbryd sy'n ein trawsnewid.  
Helpa ni i ymbwyllo a chofio dy gariad tuag atom,  
ac i fynegi ein diolchgarwch am bopeth a roddaist i ni.  
Diolchwn i ti, O Dduw.  
**Amen.**

(trwy garedigrwydd *Roots for Churches*)



# Adolygu Bywyd Cylchdaith a Synod Cymru 2016-17:

## Dogfen Drafod

Sefydlwyd Cylchdaith Cymru yn 2009 yn dilyn proses ofalus o ymgynghori a chynllunio. Crëwyd un Gylchdaith allan o ddeuddeg, ynghyd ag Ardaloedd fel rhan o'r Gylchdaith, er mwyn i waith Synod Cymru barhau. Mae Cylchdaith Cymru yn bodoli, felly, ers saith mlynedd.

Mae adolygu yn rhan o'n bywyd Cristnogol. Byddwn yn ein harchwilio ein hunain o flaen Duw ac yn ystyried beth sydd angen newid ynom ni wrth i ni ddweud ein gweddïau o gyffes. Mae gan bob cynulleidfifa gyfrifoldeb i gynnal archwiliad ar ei chapel bob pum mlynedd ("Quinquennial Inspection") er mwyn gwneud gwaith angenrheidiol i gynnal a chadw'r chapel. Dylai pob gweinidog yn yr Eglwys Fethodistaidd gymryd rhan mewn proses adolygu yn flynyddol ("Ministerial Development Review") er mwyn canfod a gweithio ar agweddau ar ei (g)weinidogaeth sydd angen eu datblygu. Felly rydyn ni'n gyfarwydd iawn ag adolygu pobl a phethau, er mwyn pwyo a mesur sut mae Duw'n ein galw ni yn ei wasanaeth.

Yn yr un modd, cytunodd y Synod yn ei chyfarfod ym mis Ebrill 2016 y dylem ddilyn proses o adolygu ein bywyd efo'n gilydd fel Cylchdaith a Synod Cymru yn ystod y flwyddyn gyfundebol 2016-17.



Bydd yr adolygiad yma'n cael ei hwyluso gan Bwyllgor Gwaith y Gylchdaith/Synod, a bydd canlyniadau ac argymhellion o'r adborth yn cael eu cyflwyno i'r Synod ym mis Ebrill 2017. Croesewir adborth gan unigolion, capeli, Ardaloedd ac unrhyw bwyllgor, cyngor neu gyfarfod sy'n bodoli yng Nghylchdaith a Synod Cymru. Dymunir derbyn amrediad mor lawn ac eang ag sy'n bosib er llwyddiant yr adolygiad. Trwy ddilyn y broses hon, goibeithio y bydd yn bosib gweld sut mae

Duw'n ein galw ni ar gyfer y dyfodol. Felly, ceisiwn ymatebion gonest, dewr a realistig i'r cwestiynau canlynol:

1. Beth yw ein cryfderau ni? Beth rydyn ni'n ei wneud sy'n dda ac yn effeithiol yn ein capeli a'n Hardaloedd, ac fel Cylchdaith a Synod Cymru?
2. Lle mae'r gwendidau yn ein bywyd efo'n gilydd? Beth sy'n rhwystro ein gwaith yng ngwasanaeth teyrnas Dduw fel capeli, Ardaloedd, Cylchdaith a Synod?
3. Pa gyfleoedd sy'n bodoli i ni wasanaethu Duw yn well, yn lleol a thrwy'r Gylchdaith a'r Synod i gyd?
4. Beth sy'n bygwth ein gweinidogaeth a'n cenhadaeth fel pobl Dduw, boed yn ein capeli a'n Hardaloedd, neu fel Cylchdaith a Synod?

Croesewir unrhyw sylwadau eraill sy'n berthnasol i'r adolygiad, wrth i ni ystyried ein bywyd efo'n gilydd o dan Dduw fel rhan o'r Eglwys Fethodistaidd. Diolch yn fawr i bawb.

Anfonwch eich ymatebion erbyn 31 Ionawr 2017 at:

**Y Parch Ddr Jennie Hurd**  
[jennifer.hurd@methodist.org.uk](mailto:jennifer.hurd@methodist.org.uk)

## COLOFN GERDD

gan GARETH BLAINEY

### 'Y SYMFFONI ORAU'

Pa symffoni yw'r un orau? Dyna'r cwestiwn a ofynnwyd i 151 o arweinyddion amlycaf cerddorfeidd ledled y byd ar gyfer erthygl yn rhifyn mis Medi cylchgrawn 'BBC Music'. Dewisodd yr arweinyddion hynny y 3 symffoni orau erioed yn eu barn nhw a'u gosod yn 1af, 2il a 3ydd. Roedd dau Gymro ymhlith yr arweinyddion sef Owain Arwel Hughes sy'n arwain cerddorfa 'Camerata Wales' a Grant Llewellyn sy'n arwain Cerddorfa Symffoni Gogledd Carolina yn America.

'Y symffoni orau' yn ôl canlyniadau'r arolwg barn hwn yw Symffoni Rhif 3 Ludwig van Beethoven. Symffoni 'Eroica' yw teitl mwyaf cyfarwydd y gwaith hwn ond nid dyna deitl gwreiddiol y darn a gyfansoddwyd ym 1803 ac 1804. 'Bonaparte' oedd y teitl cyntaf roddodd Beethoven ar y symffoni oherwydd ei fod yn edmygu Napoleon Bonaparte, ddaeth i'r amlwg yn ystod y Chwyldro Ffrengig ym mlynnyddoedd olaf y



18fed ganrif. Newidiodd Beethoven ei feddwl am Bonaparte pan alwodd hwnnw ei hun yn Ymerawdwr Ffrainc ym 1804. Yn ôl ysgrifennydd y cyfansoddwr Ferdinand Ries gwylltiodd Beethoven yn gacwn a rhwygo tudalen gyntaf y symffoni oedd ag enw Bonaparte arni gan ddweud 'gwnaiff o sathru ar y dyn cyffredin oherwydd ei uchelgais bersonol ei hun'. 3edd symffoni Beethoven yw dewis cyntaf 25 o'r 151 o arweinyddion a holwyd, ac mae un o'r pump ar hugain, sef arweinydd Cerddorfa Symffoni NHK yn Tocio Paavo Järvi, yn credu fod yr 'Eroica' yn 'garreg filltir' oherwydd ei bod hi wedi 'creu cyfeiriad newydd i'r symffoni'.

Cyn imi agor tudalennau 'BBC Music' roeddwn wedi dyfalu'n gywir mai un o symffoniau Beethoven fuasai ar y brig fel petai, ond roeddwn i'n meddwl mai ei Symffoni Rhif 9 fuasai'r dewis mwyaf poblogaidd. Ei theitl mwyaf cyfarwydd yw'r Symffoni 'Gorawl' gan fod ei symudiad olaf yn osodiad ar gyfer pedwar unawdydd a chôr yn ogystal â cherddorfa, o'r 'Awdl i Lawenydd' gan y bardd o'r Almaen Friedrich Schiller. Y symffoni hon sy'n 2il ar restr y symffoniau gorau ym marn yr arweinyddion a Symffoni Rhif 41 Wolfgang Amadeus Mozart sy'n 3ydd. Dwy o symffoniau Gustav Mahler sydd yn y safleoedd nesaf ar y rhestr - Symffoni Rhif 9 Mahler sy'n 4ydd a Symffoni Rhif 2 Mahler sy'n 5ed.

Ail symffoni Mahler yw fy hoff symffoni i felly buaswn i wedi hoffi ei gweld hi yn 'rhif 1', ond mae hi'n anodd dadlau yn erbyn barn bron i 1 o bob 6 o arweinyddion cerddorfaol gorau'r byd mai yr 'Eroica' yw 'y symffoni orau'.

A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith. Rhufeiniaid 15: 13

## Shiloh, Tregarth

### LLONGYFARCH EIN POBL IFANC

Bu rhai o bobl ifanc y capel yn eistedd eu harholiadau Lefel A yn ystod y misoedd diwethaf a dymunwn yn dda iddynt yn eu hastudiaethau pellach. Yn eu mysg mae Gwenno Kervegant a Joshua Williams. Bydd Gwenno yn astudio Hanes ym Mhrifysgol Abertawe a Joshua yn dilyn cwrs Addysg Gynradd ym Mhrifysgol Bangor.

### TAITH PHILIP A CATHERINE

Erbyn hyn mae ein gweinidog a'i wraig, Philip a Catherine Barnett, wedi cyrraedd adref yn ddiogel o'u taith o gwmpas arfordir Prydain. Codi arian at ymchwil i glefyd MS oedd diben y daith a diolchwn iddynt am eu hantur a'u haberth. Pob llwyddiant i'r ymdrechion i drechu'r clefyd.

*Gohebydd – Gwenda Davies*

## Pisgah, Rhiwlas



Llongyfarchiadau i John Huw Evans ar ei ben-blwydd arbennig a phob dymuniad da.

## Ebeneser, Dolgellau

### Y GYNHADLEDD

#### FETHODISTAIDD, 2016

Roedd y Chwaer Eluned Williams yn un o'r cynrychiolwyr yn y Gynhadledd yn Llundain eleni. Wrth arwain oedfa ar ôl dychwelyd, fe roddodd inni flas ar rai o weithgareddau'r Gynhadledd a phrysurddeb yr wythnos.

### GWELLHAD

Mi fu Mr Hugh Humphreys yn yr ysbyty am ychydig ddyddiau ond mae gartref erbyn hyn. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo.

### YMADAWIAD

Dymunwn yn dda i Mrs Janet Handley sydd wedi symud o Ddolgellau i fyw yn nes at ei theulu. Mi fu'n mynychu'r gwasanaethau yn Ebeneser am yn agos i ddeuddeng mlynedd ar hugain. Bydd chwithdod ar ei hôl.

### GENEDIGAETH

Ar Orffennaf 1af yng Nghaerdydd ganwyd Lucie Belle Louise, merch fach i Dafydd a Sarah Meredith, chwaer i Cai a Macs ac wyres i Wyn a Gwyneth Meredith.

*Gohebydd – Gwyneth Meredith*

## St Paul, Aberystwyth

### FFARWEL A CHROESO

Ar brynhawn dydd Sul 10 Gorffennaf cynhaliwyd gwasanaeth dwyieithog i ddiolch i'r Parchedig James Patron Bell am ei wasanaeth i Ardal Ceredigion a Chylchdaith Saesneg Ceredigion ers 2011 ac i ffarwelio â'r teulu i gyd. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Ddr Jennie Hurd, y Parchedig Roger Hides a'r Diacon Sara Windsor-Hides ac yn ystod y gwasanaeth cyflwynwyd siec i James gan Mrs Delyth Evans ar ran Ardal Ceredigion a Mrs Liz Edwards ar ran y Gylchdaith Saesneg. Bu James a Joanna a'u merched Rebekah ac Esther yn byw yn y Mans yn Llanbedr Pont Steffan ond erbyn hyn maent wedi symud i Winsford yn Sir Gaer lle bydd James yn dechrau ar gyfnod newydd fel gweinidog. Bydd darllenwyr y *Gwylidiedydd* yn cofio'r llun hyfryd o'r teulu yn y rhifyn diwethaf. Gofynnwn fendith Duw arnynt i gyd yn eu cartref newydd.

Ein gweinidog newydd yw'r Parchedig Marty Presdee sy'n aelod o Synod Cymru a Wales Synod. Mae Marty yn gyfrifol am gapeli Ardal Ceredigion ac yn byw yn y Mans yn Llanbedr Pont Steffan. Cynhaliwyd gwasanaeth dwyieithog o groeso iddi hi a'i gŵr John ar nos Fercher 31 Awst. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Ddr Jennie Hurd, y Parchedig Ddr Stephen Wigley, y Parchedig Roger Hides a'r Diacon Sara Windsor-Hides. Darllenwyd o'r Hen Testament gan Miss Menna Evans ac o'r Testament Newydd gan Mrs Delyth Wyn Davies. Estynnwyd croeso i Marty a John gan gynrychiolwyr o'r eglwysi lleol, Cartref Methodistaidd Hafan y Waun ac Ardal Ceredigion. Edrychwn ymlaen at ddo i nabad Marty a John, gan obeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

### LLONGYFARCHIADAU

Estynnwn ein llongyfarchiadau cynhesaf a'n dymuniadau gorau fel cynulleidfa i Trefor ac Emily Lloyd Jones a ddathlodd eu priodas ddeimwnt ar 8 Medi ac i Jim a Diane Jones a ddathlodd eu priodas aur ar 30 Gorffennaf. Anfonwn ein llongyfarchiadau hefyd i Gwenno Foster Evans, wyres ein haelod Ray Foster


Evans, ar dderbyn gradd mewn ffiseg trwy gyfrwng y Gymraeg o Brifysgol Aberystwyth.

*Gohebydd – Lionel Madden*

## Horeb, Llanrwst

### DIWEDD OES EIN HADEILAD

Newyddion digon trist sydd gennym yn y rhifyn hwn. Oherwydd costau cynnal a chadw cynyddol a phydredd sych yn treiddio drwy'r adeilad, byddwn yn



Hawlfaint Richard Hoare

cynnal ein hoedfa olaf yng Nghapel Horeb fore Sul, 18fed o Fedi dan ofal ein gweinidog y Parchedig Philip Barnett. Rydym wedi bod yn cynnal ein hoedfaon yn y festri ers blwyddyn ond yn anorffod erbyn hyn rhaid gadael yr adeilad o ran iechyd a diogelwch.

Newyddion da yw nad yw'r achos yn dod i ben ond ein bod fel cynulleidfa yn symud ar draws y ffordd i rannu adeilad gyda'r Bedyddwyr ym Mhenuel. Capel bychan diddos yw Penuel, mewn cyflwr da, ac edrychwn ymlaen at addoli yno (fel Horeb ym Mhenuel).

### TAITH Y MORRIS MINOR

Hoffem longyfarch ein gweinidog y Parchedig Philip Barnett a Catherine ei wraig am gwblhau taith o gwmpas arfordir Prydain mewn Morris Minor sydd mewn gwth o oedran. Treuliwyd tair wythnos ar y daith o dros dair mil o filltiroedd. Codi arian y maent at waith ymchwil i glefyd MS. Mae'r ddau wedi gweithio yn ddiflino dros y blynyddoedd i godi arian tuag at yr achos teilwng hwn.

### GWELLHAD BUAN

Anfonwn ein cofion at Maldwyn, gŵr Catherine, sydd yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn adferiad iechyd buan iddo. Ein cofion hefyd at yr holl aelodau sydd yn fregus eu iechyd. Rydym yn meddwl amdanoch.

*Gohebydd – Eira Jones*

# CAPEL NI



gan y Parchedig Dilys Jones

Mae hi'n hanner awr wedi naw y bore. Yr haul eisoes yn danbaid. Mae'n amser i'r oedfa ddechrau ar Sul arbennig iawn, Sul y Pasg ... Fe fydd hwn yn wasanaeth maith, dim llai na phedair awr, ond does yr un gwasanaeth yn llai na dwyawr a hanner i deirawr.

Does dim llawer wedi cyrraedd eto, ond dim achos pryderu. Dyma'r drefn yma, rhyw lithro i mewn rywbryd yn ystod yr awr gyntaf.

Mae hi'n agosáu am hanner awr wedi deg a'r capel yn orlawn, y merched yn eu gwisgoedd gwyn traddodiadol heddiw. Maen nhw yma i ddathlu'r Atgyfodiad a gwisg wen ydi'r traddodiad. Mae'r dynion hefyd yn eu gwisg draddodiadol liwgar...A'r plant? Wel, tua wyth deg ohonyn nhw yn eistedd ar y llawr ymhob man. Does dim seddau ar eu cyfer nhw. Maen nhw hefyd yn cofio fod y gweinidog

a'i wraig yn rhannu fferins ar Sul y Pasg.


Pregeth fer heddiw. Mae cymaint yn digwydd yn y gwasanaeth. Pump ar hugain yn cael eu bedyddio, yn amrywio mewn oedran o chwe mis i wyth deg mlwydd. Go brin y bydd y gweinidog yn gallu codi llawer ohonyn nhw yn ei freichiau! Yna pymtheg o fechgyn a merched yn eu hugeiniau yn cael eu derbyn yn gyflawn aelodau, dau o'r bechgyn wedi cefnu ar Fwslemiaeth a chofleidio Cristnogaeth. Ond mae pris i'w dalu. Mae'r ddau wedi eu diarddel gan eu teuluoedd.

Yn awr, penlinio i dderbyn y bara a'r gwin, tua chant a hanner ohonom ni yn cymuno, a'r merched yn diosg eu sandalau cyn cerdded ymlaen. Cyn i'r oedfa ddod i ben byddwn yn canu'r corws Haleliwia yn ôl yr arfer. Mae llawer o'r

gynulleidfa yn anllythrennog ac eto, dros y blynyddoedd, maent wedi dysgu'r geiriau. Dyma godi'r to bron.

Hanner awr wedi un o'r gloch a'r gwasanaeth drosodd o'r diwedd. Allan â ni o'r adeilad diaddurn. Waliu mwd a tho sinc sydd iddo, ond y fath frwdfrydedd sydd yn yr addoliad, y fath orfoledd wrth foliannu, y fath ymroad mewn ffyddlondeb. Mae'r gwres erbyn hyn yn 94 gradd. Mae gwisg y gweinidog yn wlyb domen gan chwys. Alec druan!

A ble rydan ni, meddech? Mewn capel Methodistiaidd, mewn pentref bychan o'r enw Nkanfoa, yn Ghana, pentref lle roedd paganiaeth ac animistiaeth yn ffynnu hyd ychydig flynyddoedd yn ôl. Ond erbyn hyn Cristnogaeth sydd yn ffynnu ac yn trawsnewid bywydau. Clod i Dduw!



## Gwerthfawrogi Adre

gan  
Angharad  
Tomos



Sut un ydach chi am aros yn y tŷ? Rhaid i mi gydnabod fy 'mod i yn anobeithiol. Falle oherwydd 'mod i'n gweithio

adref. Dwi'n cysylltu gwaith efo'r tŷ, a phan mae hi'n ddydd gwyl mae'n rhaid i mi gael 'mynd am drip' – hyd yn oed os ydi o 'mond i'r dref agosaf. Mae fy ngŵr yn hollol wahanol. Gan ei fod yn teithio cryn dipyn yn y car, mae'n cysylltu gyrru efo gwaith, ac adref efo gwyliau. Dipyn o benbleth felly, yn enwedig pan ddaw yn wyliau haf.

Un diwrnod tua diwedd y gwyliau, rôn i a'r mab adref, a finna yn meddwl am lefydd i fynd iddynt. Rôn i'n chwilio am deithiau i Iwerddon, chwilio am wely a brecwast, a 'run yn plesio (neu'n llawer rhy gostus!) Chwilota am le yn Rhydychen wedyn, yna meddwl y byddai Bryste yn nes adre. Trio dyfalu wedyn be fasa ni'n neud wedi cyrraedd yno. Doedd dim byd yn plesio.

Y bore wedyn, dyma fynd am dro yn gynnar a gweld y wawr yn codi – golygfa fendigedig. Dod adre i frechwast, a'i fwynhau yn aruthrol ar ôl bod am dro. Cael paned yn yr ardd, a dotio ati (dim ond mynd yno i chwynnu fydda i). A dyma fo'n fy nharo yn sydyn, hwn oedd y lle oedd yn plesio! Oherwydd ei fod o yn gartref, dwi wedi ei lenwi efo petha dwi'n eu lecio, mae'r bobl dwi'n eu

caru yn byw yma efo mi, dydi fy ffrindiau a'm tylwyth ddim yn bell. Yn y gegin, mae'r bwyd ydwi'n ei hoffi, a mi allaf goginio yr hyn a fynnaf. Dyma'r cartref gwyliau delfrydol taswn i ond yn sylweddoli hynny!

Y diwrnod hwnnw, aros adref wnes i. Do, mi olchais ddillad a llestri a gwneud tipyn o lanhau, ond diwrnod i'r brenin oedd o gan mwyaf. Mi faswn i yn ei argymhell i unrhyw enaid aflonydd – stad o feddwl ydi bod ar wyliau, nid mater o leoliad.

Gan fod pawb arall rôn i'n ei nabod ar eu gwyliau ar y pryd, rôn i'n eiddigeddus, ac yn teimlo mod i yn cael bargaen wael. Doeddwn i ddim wrth gwrs, ac roedd cysgu yn fy ngwely fy hun yn fonws ar ddiwedd dydd.

Pan mae'r Beibl yn dweud wrthym am beidio chwenychu, dyma sydd dan sylw. Na chwenycha wyliau dy gymydog, na'i westy neu ei garafân!

Gwerthfawrogn yr hyn sydd gennym, a bod yn ddiolchgar.



# Parch

gan W. H. Owen

Llun:  
S4C

Efallai mai dal mewn dryswch yr oedd y rhai a wylodd gyfres gyntaf *Parch* pan ddaeth i ben. Digon gwir ei bod yn astrus gan fod yr awdur, Fflur Dafydd, yn hoff o gyfuno'r real a'r swreal. Eto, dyna ran o apêl y gyfres wrth inni ddysgu am brofiadau bywyd y Parch Myfanwy Elfed (Carys Eleri) yn ei heglwys wledig a'i chartref yn Sir Gaerfyrddin.

Os oedd rhai wedi ei gadael, ar fin y ffordd fel petai, wedi pennod neu ddwy, roedd cyfle dros yr haf i gael golwg arall arni, cyn i'r ail gyfres ddechrau'n syth ar ei hôl. Nid fod mis Awst y mis gorau i ddilyn cyfres oherwydd mynd a dod y cyfnod gwyliau. Wnes i ddim trafferthu edrych arni unwaith eto gan fy mod wedi gweld y cyfan y tro cyntaf ac yn cofio nad oedd pen pendant i'r mwdwl.

Mae'n bosib y byddai wedi bod yn well petawn wedi ciledrych

arni cyn yr ail gyfres. Roedd dychwelyd at Myfanwy, Terwyn, Eurig a Mr Jarman a'r lleill yn dipyn o ysgytwad. Y syndod cyntaf oedd fod Myfanwy yn dal yn fyw a hithau wedi diflannu i wynder nefolaidd ar ddiwedd y gyfres gyntaf, yn barod am driniaeth ar gyfer anhwylder ar ei hymennydd a effeithiai arni gydol y penodau. Amheuai ei ffydd hefyd ac nid oedd ei pherthynas ag Eurig (Rhys ap Hywel), y trefnydd angladdau, yr hyn a ddisgwylid gan ficer â theulu ganddi.

Ar ddechrau'r ail gyfres roedd yn ôl yng ngholer y ficer yn barod i roi cyngor yng nghanol archfarchnad fel caplan y dref, wedi gadael ei heglwys ac yn byw ei hun. O un i un daeth y cymeriadau eraill i'r golwg, Mr Jarman (Phylip Hughes), trysor-ydd yr eglwys yn ymweld â hi yn y siop. A ble'r oedd Eurig barod ei dafod? Dychmygai ei weld yn ei chartref newydd er ei fod yn dal ar beiriant bywyd yn yr ysbyty a mam ei blentyn yno cyn hir yn erfyn arno i ddeffro i weld eu babi.

Daeth cymeriad newydd i'r ail gyfres, Gethin (Aled Pedrick), gŵr ifanc a garcharwyd wedi iddo ladd ei gariad. Daw allan o'i gaethiwed a Myfanwy'n barod i'w gynorthwyo. Yn yr eglwys y mae'n cael nodedd a chyfle i weddio gyda'r ficer er fod dychymyg Myfanwy ar waith eto o fewn y muriau. Nid oes modd dianc oddi wrth y golygfeydd swreal, ond ymyrraeth Eurig sy'n cael y lle blaenaf, yn arbennig wrth i'w gŵr, Terwyn (Huw Davies) droi at Cerian (Lowri Steffan), gwraig Eurig i'w chynorthwyo i fod yn drefnydd angladdau. Ar ddiwedd yr ail bennod nid oedd sicrwydd fod Eurig am droi ar wella.

Hawdd deall nad yw'r gyfres gomedi dywyll hon at ddant pawb gyda byd dychymyg yn drên ac angen amynedd i'w dilyn. Serch hynny, mae'n wahanol a pherfformiadau gloyw Carys Eleri a'i chyd-actorion a'r cyfarwyddo deheuig yn werth eu dilyn. A phryd y cafwyd cyfres ar nos Sul sy'n rhoi cymaint o sylw i ficer a'i theulu, er mor rhyfedd a throfaus eu bywydau?

## PLANHIGION Y BEIBL

gan W. Arvon Roberts

### 89. Wermod (*Artemisia judaica*)

*Seiniodd y trydydd angel ei utgorn.*

*Yna syrthiodd o'r nef seren fawr yn llosgi fel ffagl; syrthiodd ar draean o'r afonydd ac ar ffynhonnau'r dyfroedd.*

*Enw'r seren yw Wermod, a throdd traean o'r dyfroedd yn wermod, a bu farw llawer o bobl o achos chwerwi'r dyfroedd.*



– Datguddiad 8: 10, 11.

Ceir sawl cyfeiriad at wermod yn yr Ysgrhythur a phob tro fe bwysleisir ei chwewrder. “Gwylwch rhag bod yn eich mysg heddiw na gŵr, gwraig, tylwyth na llwyth a'i galon yn troi oddi wrth yr Arglywydd ein Duw i fynd ac addoli duwiau'r cenedloedd hynny, a rhag bod

yn eich mysg wreiddyn yn cynhyrchu ffrwyth gwenwynig a chwerw [sef: wermod].” Deuteronomium 29: 18. Mae sudd chwerw yn cael ei gynhyrchu o Artemisia, rhywogaeth a enwyd ar ôl y dduwies Roegaidd Artemis, ac mae'n gyfarwydd ers canrifoedd. Enw un math ohono oedd “parthenia” neu “planhigyn gwryfol”. Mae sawl math o fewn yr un rhywogaeth ond mae pob un yn edrych yn debyg iawn i'w gilydd. Cafodd wermod gyffredin Prydain yr enw gwrysgen lwyd ers cyfnod cynnar iawn. Gall dyfu i faint llwyn bychan ac mae'r coesau wedi'u gorchuddio â dail bach gwyrdd sydd ag wyneb gwlanol a lliw llwydaidd golau oddi tanynt. Mae blas chwerw iawn ar y dail ac fe'u defnyddir fel meddyginiaeth. Ers talwm byddai'r llysiuyn yn cael ei wlychu mewn gwin i wrthweithio effaith diod feddwol.

### 90. Wynwyn (*Allium cepa*)

*Yr ydym yn cofio'r pysgod yr oeddem yn eu buyta yn rhad yn yr Aifft, a'r cucumerau, y melonau, y cennin, y wynwyn a'r garlleg; ond yn awr, darfu am ein harchwaeth, ac nid oes dim i'w weld ond manna.* – Numeri 11: 5, 6.

Hwn yw'r unig le y cyfeirir at wynwyn yn y Beibl, er y byddai'n fwyd cyffredin mae'n debyg yng nghyfnod y Beibl.

Mae'r llysiuyn yn tyfu'n llawer mwy mewn gwledydd sych, cynnes nag mewn lleoedd cymedrol. Mae iddo flas dymunol ac mae wynwyn



Palestina yn fath arbennig iawn. Mae'n debyg mai o Persia y tarddodd. Gellir gweld portreadau o wynwyn wedi'u cerfio ar y beddi a gloddiwyd yn yr Aifft. Dywed Herodotus, pan godwyd pyramid anferth Khufu, fod swm mawr o arian wedi'i wario ar wynwyn i'r adeiladwyr. I rai offeiriaid yn yr Aifft, roedd y llysiuyn yn symbol o'r bydysawd oherwydd iddynt weld yng nglôb crwn y wynwyn gylchoedd nefoedd, daear ac uffern. Mae'r math hwn o wynwyn yn tyfu o dan y pridd, gan anfon i fyny goes chwyddedig hir sy'n darford mewn clwstwr o flodau gwyn bychan siâp pêl, pob un â chwe phetal. Mae ei ddail ifanc, ffres yn hir a thiwbaidd. Cyfeirir mewn hen restr meddygol at gynifer â chwech ar hugain o ddibenion meddyginiaethol a berthyn i'r wynwyn. Heuir wynwyn Sant Thomas ar 21 Rhagfyr.

# AWSTIN SANT

gan y Parchedig Martin Evans-Jones

Awstin Sant – un o feddylwyr mawr yr Eglwys Gristnogol  
(Geni: 13 Tachwedd 354; marw: 28 Awst 430)

Ar adeg yn ein hanes pan mae Prydain wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, yr Eglwys yn y Gorllewin yn prysur ddadfeilio, a miliynau o ffoaduriaid yn mentro ar draws Môr y Canoldir i geisio bywyd gwell, o Syria, Ethiopia, Nigeria a gwledydd tlawd eraill, a channoedd yn trengi cyn cyrraedd y lan, a Moslemiaeth eithafol yn creu difrod a lladd gan fygwth ein crefydd a'n diwylliant, nid oes meddylwr mwy craff y gallwn droi ato am arweiniad nag Awstin, esgob Hippo, o ogledd Affrica.

Bu fyw yn ystod twf, gogoniant, a disgyniad Ymerodraeth Ewrop Gristnogol ac roedd ei fywyd yn ymateb i'r gwrthdaro ddaeth yn sgil hynny.

Yr oedd ei frwydr gyntaf efo fo'i hun. Nid oedd ei dad yn Gristion ond roedd ei fam, Monica, yn aelod defosiynol iawn o'r Eglwys Gatholig. Yr oedd y berthynas rhwng y fam a'i mab yn un ddofn a llawn croesdyniad. Fe adweithiodd yn erbyn ei chrefydd syml. Wedi i'w rieni aberthu i'w anfon i ysgol Carthage cafodd ei ddenu gan athroniaeth a llenyddiaeth Rhufain. Cymerodd feistres yn gariad a chafodd fab ganddi ac yntau ond 19 mlwydd oed. Pan gychwynnodd ar yrfa ddisglair fel athro rhethreg câi ei boenydio gan bryderon a arhosodd efo fo trwy gydol ei fywyd. Pan ymfudodd i Rufain ac yna Milan daeth i adnabod yr Esgob Ambrose, Cristion y gallai ei barchu, a'i bregethau yn gwneud i fyny am farbareiddiwch ac afledneisrwydd y Beibl oedd wedi ei flino yn ddyrn ifanc.

Yr oedd dylanwadau croes ei yrfa a'i fywyd a phwyslais ymwrthodol Cristnogaeth yn ei rwygo ar wahân. O'r diwedd, trwy bwysau ei fam gadawodd ei feistres y bu gyda hi am 15 mlynedd er mwyn priodi. Yn 386 yr oedd Awstin ar fin chwalfa nerfol. Tra'n eistedd mewn gardd clywodd lais plentyn yn galw arno, "Cymer a darllen". Ar hap agorodd y Beibl ar yr adnodau hyn o lythyr Paul at y Rhufeiniaid: "Gadewch inni fyw yn weddus, fel yng ngolau dydd, heb roi dim lle i loddest a meddwod, i anniweirdeb ac anlladrwydd, i gynnen ac eiddgedd. Gwisgwch yr Arglwydd Iesu Grist amdanoch; a pheidwch â rhoi eich bryd ar foddhau chwantau'r cnawd" (13,13-14).

Bedyddiwyd ef yn Gristion yn 31 oed. Rhoddodd i fyny ei fwriad i briodi a dewis bywyd mynach. O'r diwedd cafodd Awstin ei ryddhau o boenedigaeth. Penderfynodd greu cymuned o fynachod



yn ei hen gartref yn Hippo. Ond torrwyd ar draws y cynllun yma gan derfysg yn yr Eglwys. Câi ei phoeni gan gwynion dilynwyr cyfyngedig yn yr Eglwys (y Donatistiaid) oedd yn credu y dylai'r Eglwys fod yn gymuned bur oedd i gadw eu hunain ar wahân i'r byd.

Iddo ef nid dyma wir ystyr yr "Un Eglwys Sanctaidd Gatholig". Nid Eglwys y rhai pur oedd hi ond eglwys y rhai oedd yn ceisio ac yn hiraethu am fod yn bur. Iddo ef yr oedd yn "gymuned yr Ymerawdwr" oedd yn cwmpasu tyrfa fawr o gymunedau Cristnogol gwahanol ar hyd a lled y byd.

Erbyn hyn gwnaethpwyd Awstin yn esgob a threuliodd gyfnod nesaf ei fywyd yn delio efo'r bygythiad i'r Eglwys a

achosid gan y Donatistiaid.

Ar yr un pryd yr oedd yr Ymerodraeth Rufeinig yn prysur ddadfeilio. Yn 410 ymosododd byddinoedd barbariaid ar Rufain a'i hanrheithio'n llwyr.

I Awstin y broblem yn awr oedd: *sut y gallai rhagluniaeth Duw ganiatáu i'r Ymerodraeth Rufeinig Gristionogol gwympto fel hyn? Sut y gallai heretig fel y Goth Alaric anrheithio Rhufain Gatholig?*

Dyma pryd y cyfansoddodd Awstin ei waith mwyaf aruthrol a gymerodd 14 mlynedd i'w gwblhau – **Dinas Duw** (De Civitate Dei). Ynddo mae Awstin yn gwawdio'r hen dduwiau Rhufeinig ac yn ymdrin, nid â thrychineb Rhufain yn unig, ond â natur ac achos drygioni a sut mae hynny'n effeithio ar fawredd Duw a'i ddaioni hollbwerus. I Awstin y drwg yw colli daioni, oherwydd fod Duw a dim arall wedi rhoi bodolaeth i bob peth; mae pob pechod felly yn ddisgynfa oddi wrth Dduw tuag at ddiddymdra.

Ni chredai Awstin yr hyn y buasai rhai yn ei gredu sef bod y drwg yn rym cadarnhaol oedd o hyd yn brwydro am oruchafiaeth dros rym daioni.

Ynglŷn â'r Eglwys, daeth Awstin i'r casgliad fod yna ddwy ddinas – y ddinas ddaearol a'r ddinas nefol. Mae pob sefydliad y gwyddom amdano yn cymryd rhan mewn brwydr rhwng y ddwy ddinas yma, brwydr sydd yn rhedeg trwy hanes y byd. Chwalwyd y syniad o Ymerodraeth Gristnogol ym meddwl Awstin pan ddistrywiwyd Rhufain. Ni all unrhyw strwythur dynol, hyd yn oed yr Eglwys ei hun, gael ei uniaethu â Dinas Duw. "Mae dinas y saint uwch ein pennau er ei bod yn cynhyrchu dinas-yddion i lawr yma, ac yn eu personau mae'r ddinas ar bererindod nes i amser y deyrnas ddod".

Parhaodd Awstin yn besimistaidd ynglŷn â'r natur ddynol. Rhaid cofio iddo gael ei ffurfio yn erbyn cefndir lle distrywiwyd y byd yr oedd yn ei garu. Un o'r siomedigaethau mwyaf oedd malurio'r Ymerodraeth Rufeinig Orllewinol, a oedd iddo ef yn addewid o deyrnas Dduw ar y ddaear, yn y 390au gan adael anhrefn ac ofereidd.

Bu farw Awstin ei hun yn 430 yn ystod gwarchae ar ei dref enedigol, Hippo, gan y Fandaliaid a oddiweddasant holl ogledd Affrica ac a erlidiasant yn chwerv iawn yr Eglwys Gatholig am 60 o flynyddoedd. (Onid dyma fwriad terfysgwr Isis yn ein cyfnod ni?). Dim rhyfedd ei fod yn digalonni am y cyflwr dynol. Distrywiodd y Fandaliaid y ddinas i gyd, ond arbedwyd eglwys gadeiriol Awstin a'i lyfrgell yn rhyfeddol, diolch i Dduw.

Ysgrifennodd Awstin "Dinas Duw" i roi hyder i'w gyd-Gristnogion, ac mae'n rhoi yr un hyder i'ninnau heddiw. Meddai, "Ni ddylai rhywun ymroi cymaint i fyfyrdd fel ei fod yn esgeuluso lles ei gymydog, na bod mor hoff o weithredu nes anghofio dyfalu am y dwyfol"

# O'R PULPUD



Mae'n siŵr y bydd nifer o ddarllenwyr y *Gwyliedydd* yn cofio'r golofn fach a ymddangosai yn y papur hwn flynyddoedd yn ôl o dan y teitl 'O'r Pulpud'. Byddai pobl yn anfon dyfyniad byr o bregeth a glywsent, i'w rannu â darllenwyr y *Gwyliedydd*. O ddechrau'r 1990au y daw'r dyfyniadau isod.

Beth petaem unwaith yn rhagor yn rhannu dywediadau cofiadwy y byddwn yn eu clywed o'r pulpud â'n gilydd? Gwrandewch yn ofalus ac anfonwch air at y *Gwyliedydd*!

**'Llawenydd Duw yw cael taflu ein pechodau i'r môr diwaelod.'**  
*Y Parchedig O. Gwilym Williams*

**'Mae ymwybyddiaeth o bresenoldeb Duw ym mhob man yn sancteiddio bywyd drwyddo-draw.'**  
*Mr Thomas Herbert*

**'Dim ond Iesu, ar groes, oedd â'r hawl i ddweud *Maddau iddynt* – yr unig beth sydd gennym ni yr**

**hawl i'w ddweud yw *Maddau inni*.**'  
*Y Parchedig Erfyl Blainey*

**'Does dim arall yn werth ei ddweud, ond fod Grym Ei Atgyfodiad yn cerdded ein gwlad ni.'**  
*Y Parchedig Alun Wyn Owen*

**'Enw Iesu yw ein Trysor a'n Noddfa.'**  
*Mr Arthur Rowlands*



## Diolchgarwch

### Gweddi ar gyfer y Diolchgarwch

Pan anghofiwn nad yw popeth sydd gennym yn eiddo i ni, ond i ti i'w roi...  
Pan fesurwn ein llwyddiant yn ôl y cyfoeth a fwynhawn...  
Pan fethwn weld bod y cyfoeth a fwynhawn wedi ei brynu ar draul eraill...

*Ymateb i bob llinell: Dysg ni i rannu*

Pan fydd gennym ddewis i siopa'n rhad, neu'n deg...  
Pan honnwn yr hawl i berchnogi, tra bo eraill yn mynd heb...  
Pan wnawn sioe o'n cyfoeth yn wyneb y rhai sy'n brwydro...

*Ymateb i bob llinell: Dangos i ni sut i ofalu.*

Pan fydd unigolion a chwmnïau'n esgeuluso eu cyfrifoldebau...  
Pan geir rhyfeloedd dros berchnogaeth tir a'r adnoddau sydd yno...  
Pan gaiff pobl eu gorfodi o'u mamwlad i geisio bywyd gwell...

*Ymateb i bob llinell: Helpa ni i godi llais.*

Gweddiwn er mwyn dy holl bobl.  
**Amen.**

*[Y weddi a'r llun drwy garedigrwydd Roots for Churches]*



# Tudalen y Plant

## STORI RUTH

Un tro, tua mil o flynyddoedd cyn geni Iesu Grist, roedd gŵr a gwraig yn byw ym Methlehem a'u henwau oedd Elimelech a Naomi. Roedd Naomi yn hapus iawn yn byw gyda'i gŵr a'u dau fab, Machlon a Cilion. Ond daeth newyn mawr ar y wlad. Doedd gan y bobl ddim byd i'w fwyta. Felly, penderfynodd y teulu adael eu cartref a mynd i wlad arall. Roeddent yn ffoaduriaid, yn gorfod cerdded a cherdded i geisio cael hyd i rywle i fyw.

Cyrhaeddodd y teulu wlad Moab ac ymgartrefu ymhlith y bobl oedd yn byw yno. Ond yna



digwyddodd rhywbeth trist iawn. Bu farw Elimelech. Ond doedd Naomi ddim ar ei phen ei hun gan fod ei dau fab yn dal gyda hi. Priododd Machlon a Cilion â merched hardd o wlad Moab. Eu henwau oedd Orpa a Ruth. Wedyn, ymhen rhyw ddeg mlynedd, bu farw dau fab Naomi hefyd.

Clywodd Naomi fod bwyd i'w gael yn awr ym Methlehem ac roedd hi eisiau mynd adref i'w gwlad ei hun. Cychwynnodd ar ei thaith, ac Orpa a Ruth gyda hi. "Na, peidiwch â dod," meddai Naomi wrthynt. "Fydd gennych chi neb i edrych ar eich ôl mewn gwlad ddieithr." Cusanodd Orpa ei mam-yng-nghyfraith a mynd yn ôl.

Ond ar ôl gwrando ar beth ddywedodd Naomi, atebodd Ruth: "Paid â gofyn i mi fynd yn ôl. Dwi am fynd i ble bynnag fyddi di yn mynd. A dwi'n mynd i aros ble bynnag fyddi di'n aros. Bydd dy bobl di yn bobl i mi, a dy Dduw di yn Dduw i mi."

Wedi i'r ddwy gyrraedd Bethlehem, roedd Naomi a Ruth yn dlawd iawn. Aeth Ruth allan i'r caeau yd i hel beth oedd ar ôl pan oedd y gweithwyr wedi casglu'r cynhaeaf. Digwyddodd fynd i ran o'r cae oedd yn perthyn i Boas, perthynas i Elimelech, gŵr Naomi. Roedd Boas yn gwybod pa mor garedig roedd Ruth wedi bod wrth Naomi ac fe ofalodd nad oedd hi'n cael dim niwed. Fe briododd Ruth a Boas a chael mab, Obed. Ef oedd taid y Brenin Dafydd.



*Helpwch Ruth a Naomi i gael hyd i'r ffordd i Fethlehem*

